RHAGAIR

Rwy'n falch unwaith eto o gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn ar ran y naw arolygiaeth a'r cyrff rheoleiddio sy'n ymgymryd â'r rhaglen i arolygu'r 155 o Dimau Troseddau Ieuenctid (TTIau) yng Nghymru a Lloegr. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r hyn a gyflawnwyd gan yr holl aelodau staff sy'n gweithio ar y rhaglen arolygu hon, sydd bellach yn ei thrydydd cyfnod. Trwy weithio gyda'n gilydd, sicrhawn ein bod yn asesu'r ddwy agwedd ar waith TTI: eu hangen i ddiogelu lles a datblygiad y plant a'r bobl ifanc y maent yn eu goruchwylio ac, yn hanfodol, i'w hatal rhag troseddu a rhag bod yn *risg niwed* i'r cyhoedd.

Dyma rai pwyntiau allweddol i'w nodi:

1) Mae hwn yn enghraifft o drefn arolygu ar y cyd sy'n gweithio'n dda, ac sydd wedi'i chydlynu'n dda ag Adolygiadau Ardal ar y Cyd (JAR) o wasanaethau plant, yn cael eu harwain gan Ofsted, er mwyn creu cyn lleied â phosibl o waith ychwanegol i awdurdodau lleol ac eraill yn sgil arolygiadau.

2) Os yw TTIau yn edrych ar y safonau perfformiad sydd wedi'u gosod gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) a'n meini prawf arolygu – sydd ar gael ar ein gwefan – gallant fod yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir iddynt gyflawni.

3) Mae amrywiaeth o gryfderau a meysydd y mae angen eu gwella ymhlith y TTIau gwahanol, ac ychydig o batrymau cyffredinol sydd. Fodd bynnag, mae angen i'r mwyafrif wella'u dull o asesu a rheoli'r *risg niwed* i eraill a gyflwynir gan rai o'r plant a'r bobl ifanc dan eu goruchwyliaeth.

4) Rydym yn cymeradwyo ymateb cadarnhaol y TTIau a'u Byrddau tuag at arolygu, ac mae hynny'n sicrhau yn y rhan fwyaf yr achosion bod arolygu yn dod yn fan cychwyn i welliannau dilynol.

Bydd y cylch cyntaf hwn o arolygiadau TTI yn mynd i mewn i'w bedwerydd cyfnod yn gynnar yn 2007, a dylai gael ei gwblhau'n gyffredinol yn hanner cyntaf 2008. Gan adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu hyd yma, byddwn yn cychwyn ar gynlluniau hirdymor ar gyfer y rhaglen arolygu olynol nes ymlaen eleni.

CYNNWYS

ADRODDIAD BLYNYDDOL TIMAU TROSEDDAU IEUENCTID 2005/2006

1. Y TÎM AROLYGU
2. BLWYDDYN AROLYGU 2005/2006
3. YR AROLYGIAD TTI – CANFYDDIADAU CYFNOD DAU
4. YR AROLYGIAD TTI – CANFYDDIADAU CYFNOD TRI
5. GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YNG NGHYMRU
6. AROLYGIADAU THEMATIG
7. DADANSODDIAD AMRYWIAETH AROLYGIAETH PRAWF EM
8. BARNAU DEFNYDDWYR GWASANAETH
9. ADBORTH GAN DIMAU TROSEDDAU IEUENCTID
10. CAMAU NESAF

Y TÎM AROLYGU 2005/2006

Mae'r rhaglen arolygu'n cael ei chynnal ar y cyd gan:

- Y Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol (CAGC)
- Estyn (Arolygiaeth EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)
- Y Comisiwn Gofal Iechyd
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi
- Arolygiaeth Carchardai EM
- Arolygiaeth Prawf EM
- Ofsted (Y Swyddfa Safonau Addysg)
- Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGC Cymru)

Mae'r rhaglen arolygu TTI yn cael ei chynnal o fewn a dan arweiniad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Yn 2005/2006, cafodd y gwaith arolygu ei reoli gan Liz Calderbank, Prif Arolygydd Cynorthwyol Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, a chynhaliwyd yr arolygiadau gan:

Arolygiaeth Prawf EM
Jane Attwood
Helen Boocock
Mark Boother
John Browne
Trevor Brunton
Malcolm Bryant
Rose Burgess
Helen Cash
Ben Clark
Julie Fox
Jude Holland
Martin Jolly
Kam Kaur
Shirley Magilton
Ian Menary
Viviene O'Neale
Joseph Simpson
Ray Wegrzyn

AGC Cymru
Sheila Booth
John Llewellyn Thomas

Arolygiaeth Carchardai EM
Ian Macfadyen

Estyn
Linda Howells
Gerard Kerslake
Roger Rowett
Claire Yardley

Y Comisiwn Gofal Iechyd
Liz Adamson
Mike Bellamy
Kate Bosworth
Gordon Burton
Margaret Dexter
Alicia Etchegoyen
David Fruin
Judith Harvey
Christine Hopton
Raj Kathane
Ian Lovett
Diane Lukeman
Toks Sangowawa
Justin Thacker
Roger Thompson
Rob Willoughby

Ofsted
Louise Atkin
Jon Bowman
Jane Brook
Stella Butler
Mary Dudley
Harriet Gore
Paul Johnson
Anne Keelan Towner
Maureen McDaid
David White
Phil Whittaker

Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM
Steve Blackburn
Steve Glass
Mike Mullis
Glen Suttenwood

CAGC
Rhona Bradley
Yvette King
Karen McKeown
Dan Parks

Bu'r canlynol yn darllen ffeiliau achos ar arolygiadau:

Jo Bergdahl
Suki Binning
Penny Davies
Stephanie Mason
Nicola Molloy
Nikki Shave

Cefnogwyd y rhaglen arolygu gan:

Natalie Dewsnap
Grace Dickin
Deborah Hood

BLWYDDYN AROLYGU 2005/2006

TROSOLWG

Gwelodd y flwyddyn 2005/2006 nifer o ddatblygiadau newydd pwysig yn y rhaglen arolygu TTI ar y cyd. Rydym wedi:

- cwblhau cyfnod dau'r rhaglen arolygu perfformiad, lle cafodd 29 o TTIau eu harolygu, gan gynnwys 27 o Loegr a 2 o Gymru
- datblygu methodoleg newydd ar gyfer cyfnod tri'r rhaglen arolygu, wedi'i chynllunio'n arbennig i gyd-fynd â rhaglen Adolygiadau Ardal ar y Cyd (JAR) o wasanaethau plant yn Lloegr, ac arolygiadau a gynhelir fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, ac o wasanaethau cymorth ieuenctid o dan Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yng Nghymru
- dechrau cyfnod tri'r rhaglen, a fydd yn cynnwys yr holl TTIau na chafodd eu harolygu'n flaenorol yng nghyfnodau un a dau, a pharhau hyd at fis Medi 2008
- cyfrannu at yr adolygiad Diogelu ar y cyd o wasanaethau plant a chyhoeddi adroddiad ar wahân, *From Arrest to Sentence,* yn nodi canfyddiadau'r arolygiad TTI
- cwblhau gwaith maes ar adolygiad o Ganolfannau Presenoldeb
- cydweithio â'r Comisiwn Gofal Iechyd i nodi canfyddiadau o'r arolygiadau TTI sydd eisoes wedi'u cynnal mewn perthynas ag anghenion iechyd meddwl a chorfforol plant a phobl ifanc.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi nifer yr arolygiadau TTI a gynhaliwyd (h.y. y gwaith maes wedi'i gwblhau) yn ystod 2005/2006, a nifer yr adroddiadau a gyhoeddwyd. (Yn anochel mae rhywfaint o oedi o ran amser rhwng dyddiad y gwaith maes a'r dyddiad cyhoeddi.)

	Arolygiadau a gynhaliwyd	**Adroddiadau arolygu a gyhoeddwyd**
Arolygiadau a gynhaliwyd fel rhan o gyfnod dau	12	22
Arolygiadau a gynhaliwyd fel rhan o gyfnod tri, gan gynnwys arolygiadau dilynol lle bo hynny'n berthnasol	31	7

Mae'r rhaglen arolygu TTI yn cael ei hadnoddau o gyfuniad o gyllid newydd sydd wedi'i ddyrannu i Arolygiaeth Prawf EM at y diben a thrwy enillion effeithlonrwydd a reolir yn fewnol. Fel yr arolygiaeth arwain, prynwn bron yr holl gyfraniadau sy'n cael eu gwneud gan y naw corff rheoleiddio sy'n gweithio gyda ni ar y rhaglen. Bellach mae gwaith arolygu yn 40% o'n llwyth gwaith cyffredinol ac, yn hynny o beth, mae'n faes gwaith sylweddol.

YR AROLYGIADAU TTI

Yn ystod ail gyfnod y rhaglen arolygu, cyhoeddwyd adroddiadau ar:

Barking a Dagenham	Bryste	Buckinghamshire	Derby	Dyfnaint
Hackney	Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon	Islington	Kingston-Upon-Hull	Merthyr Tudful
Merton	Northumberland	Rochdale	Sandwell	Sefton
Gwlad yr Haf	Stockport	Tower Hamlets	Walsall	Wiltshire
Wrecsam	Efrog			

Fel rhan o gyfnod tri, cyhoeddwyd adroddiadau ar:

Bournemouth a Poole	Calderdale	Doncaster	Hillingdon	Swydd Stafford
Stockport (dilynol)	Cilgwri			

Hefyd, mae gwaith maes arolygu wedi'i gwblhau yn y TTIau canlynol:

Barnet	Blackpool	Brent	Brighton a Hove	Caerffili a Blaenau Gwent
Dudley	Sir y Fflint	Gateshead	Hackney (dilynol)	Haringey
Hounslow	Manceinion	Newham	Casnewydd	Northamptonshire
Gogledd Gwlad yr Haf	Peterborough	Powys	Rotherham	Sandwell (dilynol)
Swindon	Trafford	Wakefield	Windsor a Maidenhead	

YR AROLYGIAD TTI - CANFYDDIADAU CYFNOD DAU

CYFLWYNIAD

Mae'r canfyddiadau hyn yn cyflwyno'r canlyniadau cyfun o ail gyfnod ein rhaglen, a archwiliodd ansawdd goruchwyliaeth plant a phobl ifanc mewn 29 o TTIau. Maent yn cynnwys data o'r 12 TTI y cwblhawyd eu harolygiadau yn 2005/2006 o dan gyfnod dau'r rhaglen.

Nid ydym yn gallu cymharu'r achosion hyn â'r 13 TTI a arolygwyd gennym yng nghyfnod cyntaf y rhaglen arolygu, gan yr oedd ein holiaduron wedi newid yn sylweddol.

Serch hynny, gobeithiwn y bydd y canfyddiadau hyn yn ddefnyddiol i weithwyr TTI, a phawb sy'n gweithio ym maes cyfiawnder ieuenctid, ar gyfer meincnodi, ac y bydd yn eu helpu i nodi'r meysydd gwaith hynny lle mae angen gwneud cynnydd mewn goruchwyliaeth plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu.

CANFYDDIADAU CYFFREDINOL

Cyflwynwn ganfyddiadau cyffredinol yma, ynghyd â'r achosion hynny a ddosbarthwyd gennym fel:

- troseddau treisgar, a ddiffinnir fel trais yn erbyn y person, troseddau rhywiol, tanau bwriadol a lladrata
- yn agored i niwed, naill ai ganddynt eu hunain neu gan eraill.

Er nad oes gennym gategori 'risg uchel', gwerthfawrogwn fod troseddu treisgar gan blant a phobl ifanc o bryder cyhoeddus arbennig a bod goruchwyliaeth dda yn yr achosion hyn yn arbennig o bwysig. Dylid nodi, fodd bynnag, er mai trais yn erbyn y person oedd mwyafrif yr achosion (69%), mae'n ymwneud ag ystod o droseddau, o ymosod cyffredinol i lofruddio.

Ystadegau Allweddol Arolygiadau TTI 2004/2005

	Pob ffeil		**Pobl Ifanc Agored i Niwed**		**Troseddau Treisgar**	
	Nifer	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**
Asesiad cychwynnol wedi'i gwblhau yn unol â gofynion safonau cenedlaethol: - amseroldeb	1019	85%	305	87%	335	86%
- ansawdd digonol	850	72%	265	75%	275	71%
Asesiad risg niwed llawn i eraill wedi'i gwblhau ar achosion perthnasol	301	55%	150	63%	142	60%
Tystiolaeth o ddiofalwch rheoli mewn achosion risg o niwed	87	41%	53	46%	40	38%
ISP yn bodloni	371	54%	139	55%	144	56%

gofynion cynnwys y safonau cenedlaethol ac yn cynnwys amcanion SMART						
Amlder yr apwyntiadau a drefnwyd yn cydymffurfio'n fras â safonau cenedlaethol, â gofynion gorchymyn/trwydded, ac unrhyw ystyriaethau risg o niwed	682	76%	225	74%	224	74%
Barnau ynghylch derbynioldeb/ annerbynioldeb absenoldebau yn briodol	480	69%	163	69%	148	69%
Camau torri/adalw wedi'u cymryd, os yn ofynnol, o fewn y raddfa amser safonol genedlaethol	164	47%	54	44%	42	39%
Dim tystiolaeth o unrhyw weithgarwch troseddol yn ystod cyfnod y gorchymyn	781	70%	200	61%	258	73%
Camau priodol wedi'u cymryd ar gyfer plant yr ystyrir eu bod yn agored i niwed ganddynt eu hunain ac eraill	240	96%	240	96%	87	92%
Camau effeithiol wedi'u cymryd lle mae tystiolaeth o anawsterau addysgol	249	60%	87	58%	73	54%
Os oes tystiolaeth o anghenion iechyd corfforol neu iechyd meddwl, neu o gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol, gwnaethpwyd cyfeiriad priodol	442	68%	170	73%	137	67%

Cryfderau

- Mewn 84% o achosion lle'r oedd y person ifanc yn agored i niwed, roedd camau priodol wedi'u cymryd gydag asiantaethau eraill i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc.
- Mewn 82% o achosion, roedd yr asesiad cychwynnol wedi'i gwblhau yn unol â'r raddfa amser safonol genedlaethol, ac ystyriwyd bod 72% o ansawdd derbyniol. Ym mwyafrif helaeth yr achosion (81%), roedd y plentyn neu'r person ifanc wedi'i gynnwys yn llawn yn yr asesiad.
- Ym mwyafrif yr achosion (82%), roedd y rheolwr achos yn cysylltu'n weithredol, fel bo'n briodol, gydag eraill a oedd yn gysylltiedig â'r plentyn neu'r person ifanc.
- Mewn 82% o achosion, sicrhaodd y rheolwr achos bod y plentyn neu'r person ifanc yn deall eu gorchymyn neu drwydded yn llawn.

- Mewn 80% o achosion, roedd y gwaith yn ystyried amrywiaeth y plentyn neu'r person ifanc.
- Mewn 79% o achosion, roedd camau priodol wedi'u cymryd i weithredu unrhyw ofynion llys priodol. Roedd hyn gryn dipyn yn well (90%) mewn achosion lle'r oedd plant a phobl ifanc wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau treisgar.

Meysydd i'w Gwella

- Roedd ychydig dros hanner yr holl Gynlluniau Goruchwylio Cychwynnol (CGC) yn bodloni gofynion cynnwys safonau cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
- Roedd nifer yr apwyntiadau a drefnwyd yn cydymffurfio â'r gofyniad safonol cenedlaethol mewn 62% o'r holl achosion yn unig.
- Dim ond 55% o gamau torri neu adalw a oedd o fewn y raddfa amser safonol genedlaethol, ac roedd hyn yn waeth ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau treisgar (49%).
- Gwnaed ymweliadau angenrheidiol â'r cartref, fel sy'n ofynnol gan y safonau cenedlaethol, mewn 55% o achosion yn unig.
- Roedd camau i fynd i'r afael ag anghenion addysgol ac iechyd yn gofyn am welliant sylweddol ar draws pob grŵp.
- Dim ond mewn 55% o achosion yr oedd sgôr Asset wedi gwella, ac roedd hyn ychydig yn waeth (53%) ar gyfer achosion treisgar.

CASGLIAD

Roedd y canfyddiadau yn nodedig yn gymaint â'u bod yn dangos mai ychydig o wahaniaeth oedd yn y lefel ymyriadau rhwng y tri grŵp, ac mae hynny'n awgrymu bod llawer o staff TTI heb fabwysiadu ymagwedd gymesur â risg o hyd. Roedd cyswllt â staff arbenigol, staff iechyd ac addysg yn benodol, yn gofyn am welliant sylweddol hefyd. Mae'r ddau ffactor, o'u hystyried ynghyd, yn codi cwestiynau ynghylch ymrwymiad gweithwyr i egwyddorion rheoli achosion, a'u dealltwriaeth ohonynt.

Cyfrannodd y materion hyn at ddatblygu cyfnod tri'r rhaglen arolygu.

YR AROLYGIAD TTI – CANFYDDIADAU CYFNOD TRI

CYFLWYNIAD

Mae cymdeithas yn tueddu i edrych ar blant a phobl ifanc sy'n troseddu fel troseddwyr, ond mae'n methu gweld eu hanghenion fel plant. Serch hynny, mae cryn dipyn o dystiolaeth i ddangos bod mwyafrif y plant a'r bobl ifanc hyn dan anfantais mewn nifer o ffyrdd. Mae llawer wedi dioddef yn sgil rhianta annigonol, ac mae rhai'n cael eu cam-drin. Maent yn fwy tueddol i gael problemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl, ac mae eu cyrhaeddiad addysgol yn wael. Wedi dweud hyn, maent yn gyfrifol hefyd am lefel sylweddol o droseddu, gan greu dychryn a gofid yn y cymunedau y maent yn byw ynddynt. Yr anhawster o weithio gyda'r grŵp hwn yw bodloni eu hanghenion amlwg tra'n diogelu hawliau'r mwyafrif sy'n parchu'r gyfraith. Dyma yw gorchwyl y TTIau.

METHODOLEG

Mae'r crynodeb hwn yn ystyried 23 o TTIau a gafodd eu harolygu yng Nghymru a Lloegr, ac adroddiadau a gyhoeddwyd rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2006. Mae sgorau canran yn adlewyrchu ystadegau ar gyfer y rhai dan 16 oed a'r rhai dros 16 oed. Mae canfyddiadau penodol o'r TTIau a gafodd eu harolygu yng Nghymru yn cael eu trafod yn y bennod ddilynol.

Mae cyfnod tri'r arolygiad yn cynnwys yr holl TTIau na chafodd eu harolygu'n flaenorol yng nghyfnodau un a dau. Datblygwyd ei fethodoleg i gyd-fynd â methodoleg rhaglen Adolygiadau Ardal ar y Cyd (JAR) o wasanaethau plant yn Lloegr, ac arolygiadau a gynhelir fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, ac o wasanaethau cymorth ieuenctid o dan Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yng Nghymru. Er bod y rhaglen TTI yn parhau'n broses ar wahân yng Nghymru a Lloegr, mae arolygiadau'n cael eu cynnal o fewn ffrâm amser tebyg i'r rheiny sydd â threfniadau arolygu eraill lle bynnag y bo modd, fel y gellir rhesymoli a lleihau unrhyw feysydd o orgyffwrdd neu ddyblygu posibl.

Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r angen, gan yr arolygiad yn ogystal â chan y TTIau eu hunain, i gynnwys agenda cyfiawnder troseddol yn ogystal ag agenda gwasanaethau plant. Mae canfyddiadau o'r arolygiad TTI yn cyfrannu at yr Adolygiad Ardal ar y Cyd yn ogystal ag at yr Asesiad Corfforaethol a'r Asesiad Perfformiad Blynyddol (APB) yn Lloegr, ac yng Nghymru, arolygiadau a gynhelir fel rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella a gwasanaethau cymorth ieuenctid. Er y cafwyd rhai anawsterau logistaidd wrth ail-leoli'r rhaglen arolygu TTI â'r rhaglen Adolygiadau Ardal ar y Cyd, teimlwn ei fod wedi bod yn fuddiol ac mae'n dangos ein hymrwymiad parhaus i waith trawsbynciol y TTIau.

Mae cyfnod tri'r arolygiad TTI yn cwmpasu pum maes gwaith craidd:

- trefniadau rheoli a phartneriaeth, gan gynnwys rôl a gweithrediad y Bwrdd Rheoli lleol
- gwaith yn y llysoedd

- gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned
- gwaith gyda phlant a phobl ifanc dan Orchmynion Cadw a Hyfforddi (GCH)
- dioddefwyr a chyfiawnder adferol.

Ar ddiwedd yr arolygiad, gofynnir i'r TTI i baratoi cynllun gweithredu, yn ymateb i'r argymhellion. Wedi'i gytuno, caiff y cynllun gweithredu ei anfon ymlaen at y BCI i fonitro'i weithrediad.

Mae adborth cynnar ar y broses yn awgrymu bod unioni arolygiadau TTI â'r Adolygiadau Ardal ar y Cyd wedi codi proffil gwaith y TTIau, yn enwedig o fewn rhai awdurdodau lleol. Hefyd, mae wedi galluogi canolbwyntio sylw ar hygyrchedd gwasanaethau prif ffrwd i blant a phobl ifanc sy'n troseddu. Mae'r mater yn arbennig o berthnasol mewn perthynas ag iechyd ac addysg.

CANFYDDIADAU CYFFREDINOL

Wrth archwilio'r pum maes yr ymdrinia'r arolygiad â hwy, rhoddir pwyslais ar orchwyl allweddol y TTIau, sef atal troseddu, ac ar integreiddio gwaith y TTI â gwaith gwasanaethau plant o fewn yr ardal. Telir sylw arbennig i ddiogelu plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, ac i asesu a rheoli'r rheiny yr ystyrir eu bod yn risg i'r gymuned. Rhoddir sgôr i bob adran wedyn, gan ddefnyddio'r un dull â hwnnw a fabwysiadwyd gan yr Arolygiad Ardal ar y Cyd a'r Asesiad Corfforaethol.

RHEOLI A THREFNIADAU PARTNERIAETH

Fel ag yn 2004/2005, roedd llawer o'r awdurdodau yr ymwelon â hwy yn 2005/2006 wrthi'n aildrefnu'u gwasanaethau i ganolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc, ac, fel rhan o'r newid trefniadol cyffredinol hwn, roeddent yn ystyried lleoliad y TTI a rôl a pherthynas y Bwrdd Rheoli mewn perthynas â fforymau eraill y cyngor. Fel ag o'r blaen, canfuom fod lleoliad y TTI o fewn strwythur yr awdurdod lleol o bwys llai na llinellau atebolrwydd clir ar gyfer y TTI gan y Prif Weithredwr drwy'r Bwrdd Rheoli, a dealltwriaeth gyffredin ar draws yr awdurdod o gyfraniad penodol y TTI at ei waith gyda phlant a phobl ifanc. Roedd llawer o'n canfyddiadau'n adlewyrchu canfyddiadau adolygiad y Comisiwn Archwilio o'r system cyfiawnder ieuenctid, *Youth justice 2004.*

Cryfderau

- Gwelsom lefelau cynyddol o oruchwyliaeth gan Brif Weithredwyr.
- Y Byrddau Rheoli mwyaf effeithiol oedd y rheiny a oedd yn cynnal presenoldeb cyson asiantaethau partner uwch, yn gwneud monitro data perfformiad yn erbyn mesurau perfformiad mewnol a mesurau perfformiad BCI yn flaenoriaeth ac yn gweithredu o fewn fframwaith strategol y cyngor.
- Roedd y TTIau mwyaf llwyddiannus yn mwynhau cryn gefnogaeth wleidyddol gan aelodau etholedig. Roedd eu cefnogaeth yn arbennig o ddefnyddiol i TTIau i gynnal y cydbwysedd sensitif rhwng anghenion plant a phobl ifanc ac anghenion y gymuned ehangach.
- Gwelwyd arfer gorau yn y TTIau hynny lle'r oedd partneriaid yn chwarae rôl gref yn rheolaeth strategol y TTI, ac yn sicrhau bod eu staff ar secondiad yn cael mynediad i fecanweithiau cymorth, hyfforddi a datblygu proffesiynol gan eu rhiant sefydliad yn ogystal â hynny'n cael ei ddarparu'n fewnol gan y TTI.
- Bu cynnydd amlwg mewn gwaith ataliol ar gyfer plant o oed ysgol mewn llawer o ardaloedd TTI, ac roedd hynny'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau.
- Roedd mwyafrif helaeth y Rheolwyr TTI wedi ymateb yn gadarnhaol i'r newidiadau yn eu rôl ac roeddent yn gweithio'n flaenweithgar gyda chydweithwyr ar draws yr awdurdod i sicrhau bod TTIau yn gwneud cyfraniad effeithiol at yr agenda gwasanaethau plant.

Meysydd i'w gwella

- Siom oedd canfod, er gwaetha'r pwyslais yn cael ei roi ar bwysigrwydd aelodau'r Bwrdd Rheoli gan y Comisiwn Archwilio yn *Youth justice 2004* a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ei adolygiad o reolaeth strategol y TTI, *Maintaining the Success,* nad oedd bob un o'r cynrychiolwyr â statws ddigon uchel i weithredu ar ran eu hasiantaethau priodol.
- Roedd mwyafrif y Byrddau Rheoli yn rhoi sylw annigonol i reoli a datrys mynediad i wasanaethau prif ffrwd gan y TTI. Mae'r feirniadaeth hon yn ymwneud yn benodol â'r ddarpariaeth addysg ac iechyd.

- Roedd absenoldeb protocolau/Cytundebau Lefel Gwasanaeth diweddar rhwng y TTI a'i bartneriaid perthnasol, yn nodi manylion manylebau gwasanaeth, hyfforddiant a goruchwyliaeth, secondio staff a threfniadau cyflenwi, yn cyfrannu at berthynas weithio aneffeithiol rhwng y TTI a'i sefydliadau partner.
- Roedd systemau rheoli perfformiad yn canolbwyntio'n gyfan gwbl yn aml ar dargedau'r BCI ac yn methu olrhain cynnydd plant a phobl ifanc. Roedd Cytundebau Lefel Gwasanaeth annigonol a phrotocolau rhannu gwybodaeth gwael yn arwyddion o'r methiant hwn.
- Roedd secondio staff gan y partneriaid statudol yn amrywio cryn dipyn, gyda rhai'n cyfrannu adnoddau yn lle personél. Rydym yn cytuno â barn y Comisiwn Archwilio, a ddisgrifiodd secondio staff fel cyfrannu at lwyddiant y TTIau, ond gan awgrymu bod y broses yn gofyn bod y ddau barti rheoli'n ofalus.
- Nid oedd yr holl staff ar secondiad yn cael y cymorth a'r oruchwyliaeth effeithiol angenrheidiol gan eu hasiantaeth eu hunain i gynnal cysylltiadau proffesiynol a chael mynediad i wasanaethau eu rhiant sefydliad yn uniongyrchol. Mewn rhai achosion, roedd eu harwahanrwydd yn cael effaith ar eu heffeithiolrwydd cyffredinol.

Arfer da	Roedd Penaethiaid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant yn Bournemouth a Poole, mewn ymgais i ddeall y lefel gynyddol o droseddu o fewn y poblogaethau Plant sy'n Derbyn Gofal, wedi gofyn i'r swyddog ymchwil TTI i archwilio'r cyffelybiaethau a'r gwahaniaethau rhwng Plant y sy'n Derbyn Gofal a Phlant Nad Ydynt yn Derbyn Gofal. Ni nodwyd unrhyw wahaniaethau sylweddol, ac felly cafodd y protocolau a'r gweithdrefnau'n ymwneud â datrys anghydfodau mewn cartrefi gofal preswyl a chartrefi maeth eu hadolygu wedyn, i weld a oedd diwylliant o gysylltu â'r heddlu'n gynnar wedi datblygu. Roedd y gwaith hwn yn enghraifft dda o ddefnyddio data ymchwil i gwestiynu systemau ac arfer.

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

- **Gofal Cymdeithasol**

  Gwasanaethau plant - Yn gyffredinol roedd yr adrannau hyn yn buddsoddi cryn dipyn o adnoddau Prif Swyddogion yn y TTI, nid yn unig yn cadeirio'r Bwrdd Rheoli ar ran y Prif Weithredwr, ond hefyd yn rheoli'r Rheolwr TTI. Dangoswyd llwyddiant y trefniadau hyn gan integreiddio cynyddol llawer o TTIau i'r fframwaith gwasanaethau plant o fewn awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid oedd cynnydd ar lefel strategol yn cael ei adlewyrchu o hyd wrth gyflwyno gwasanaethau. Roedd dryswch rhwng gweithwyr TTI a gweithwyr gwasanaethau plant ynghylch trothwyon cyfeirio eu hasiantaethau priodol wedi arwain at berthynas weithio wael mewn rhai awdurdodau, ac roedd angen datrys hynny ar lefel strategol trwy

gytundebau gweithio ar y cyd. Er bod rhai TTIau yn dod yn fwy effeithiol o ran rhannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc agored i niwed, gyda llawer yn cael mynediad i'r cronfeydd data gofal cymdeithasol, roedd ansawdd y cyswllt yn rhy anghyson yn aml. Er i ni weld rhai mentrau rhagorol, yn gysylltiedig â TTIau, a oedd yn gweithio i leihau troseddu ymhlith plant a phobl ifanc mewn cartrefi preswyl, gwelsom hefyd gyfran uchel o achosion Plant sy'n Derbyn Gofal lle bu ychydig neu ddim cyswllt rhwng y TTI a'r gweithiwr gwasanaethau plant. Nid oedd hyfforddiant mewn diogelu plant yn rhan o'r rhaglen graidd o hyd ar gyfer staff a gwirfoddolwyr TTI, a chanlyniad hynny oedd, er bod y lefel ymrwymiad i weithio gyda phlant a phobl ifanc agored i niwed i weld yn uchel, mai ychydig o ddealltwriaeth neu ymwybyddiaeth oedd mewn rhai achosion o'r materion dan sylw.

Addysg – Ym mwyafrif y TTIau, roedd trefniadau partneriaeth da gyda gwasanaethau addysgol, a oedd yn galluogi dyrannu plant a phobl ifanc yn effeithiol i leoliadau addysgol gwahanol. Roedd arfer da wedi datblygu mewn llawer o TTIau mewn perthynas â threfniadau protocol rhwng ysgolion lleol, Unedau Cyfeirio Disgyblion a phartneriaethau Connexions. Er eu bod yn annigonol yn aml, roedd adnoddau wedi'u targedu'n dda fel arfer i fynd i'r afael ag anghenion addysgol.

Mewn rhai awdurdodau, roedd yr ymrwymiad a'r cyfraniad gan ddarparwyr addysg ar lefel strategol yn wan. Roedd presenoldeb uwch bersonél addysg allweddol mewn cyfarfodydd strategol yn anghyson. Cyfyngai trefniadau ariannu gwael ar ystod y gwasanaethau, ac, o ganlyniad, roedd y cyfleoedd addysgol a oedd ar gael i blant a phobl ifanc sy'n troseddu, ac a oedd ag anghenion addysgol cymhleth a hir sefydlog yn aml, yn gyfyngedig.

Roedd y trefniadau partneriaeth rhwng ysgolion lleol, yr awdurdod lleol (yr Awdurdod Addysg Lleol yn flaenorol) a'r Bwrdd Rheoli yn wan iawn mewn lleiafrif o TTIau. Mewn rhai achosion, dim ond ychydig o'u hawl addysgol yr wythnos yr oedd plant a phobl ifanc o oed ysgol, a oedd fel arfer wedi'u gwahardd o'r ysgol, yn ei gael; roedd hynny gyn lleied ag awr a hanner i deirawr mewn un ardal. Roedd hwn yn achos pryder difrifol.

- **Iechyd -** Nid oedd gan bob TTI gynrychiolaeth briodol o'r Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol (YGS) ar y Bwrdd Rheoli. Ar adegau, nid oedd yr un cynrychiolydd wedi'i nodi, penodwyd un nad oedd ganddo statws digonol, neu roedd y cynrychiolydd wedi methu mynychu cyfarfodydd. Arweiniodd hyn at gynllunio strategol annigonol mewn perthynas â chyfraniadau gwasanaeth iechyd at wasanaethau cyfiawnder ieuenctid a methiant i hyrwyddo'r agenda TTI o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG).
- **Yr Heddlu –** Roedd TTIau yn gynyddol yn dod yn rhan o strategaethau Troseddwyr Cyson a Throseddwyr â Blaenoriaeth, gyda lefelau cynyddol o reolaeth a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â rhai plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, roedd y llif cudd-wybodaeth o natur gyffredinol rhwng ardaloedd TTI a heddluoedd

yn amrywio cryn dipyn. Lle'r oedd canllawiau strategol clir, roedd gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn effeithiol ac roedd y TTI yn cael ei gynrychioli mewn fforymau cudd-wybodaeth a gorchwyl yr heddlu. Heb yr arweiniad hwn, roedd rhywfaint o amheuaeth fewnol ac allanol yn parhau rhwng asiantaethau mewn perthynas â rheoli cudd-wybodaeth, ac roedd cyflwyniad eitemau cudd-wybodaeth gan swyddogion heddlu TTI yn amrywio cryn dipyn.

Roedd gan ran fwyaf y TTIau gysylltiadau da â'u Partneriaethau Lleihau Troseddu ac Anhrefn (CDRP). Fodd bynnag, nid oedd effaith mentrau plismona lleol yn gysylltiedig â phlant a phobl ifanc yn cael eu trafod o hyd ar lefel strategol er mwyn cynllunio ymlaen ar gyfer mwy o gyfeiriadau a lefelau cysylltiad.

- **Prawf -** Roedd cynrychiolaeth gan ardaloedd prawf ar y Bwrdd Rheoli TTI yn amrywio cryn dipyn. Mewn rhai, roedd gwaith prawf yn gwneud cyfraniad sylweddol at waith y TTI, nid yn unig gan staff secondio ond yn gweithredu hefyd fel ei gynrychiolydd ar y Bwrdd Cefnogi Pobl, yn ogystal â gweithio ochr yn ochr â'r TTI i weithredu Trefniadau Diogelu'r Cyhoedd Aml-asiantaethol (MAPPA) a chymryd rôl allweddol mewn hyrwyddo gwaith effeithiol ar asesu a rheoli risg. Mewn rhai eraill, ychydig o weithio felly ar y cyd oedd, ac roedd yn anodd gweld sut oedd yr ardaloedd prawf hynny'n bodloni'r rhwymedigaethau a bennwyd iddynt naill ai gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 neu Ddeddf Plant 2004.

Arfer da	Roedd gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio, eu hyfforddi a'u cefnogi gan Wasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI) Hillingdon fel cynrychiolwyr eu cymuned. Roedd cryn ymdrechion wedi'u gwneud i ddatblygu amrywiaeth y grŵp gwirfoddolwyr, ac roedd trefniadau clir ar waith i ddatblygu'u dealltwriaeth o waith y GTI a'i bartneriaid, gan gynnwys hyfforddiant, goruchwyliaeth a rhwydwaith a gwefannau cymorth cymheiriaid.

CASGLIAD

Mae effaith yr agenda plant ar awdurdodau lleol wedi bod yn sylweddol, ac roedd pawb wedi gweithio'n galed i ganolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Roeddwn yn falch o ganfod bod TTIau, ym mwyafrif yr awdurdod yr ymwelwyd â hwy yn ystod 2005/2006, yn cael eu cynnwys yn yr agenda datblygol hwn, ac yn cyfrannu ato, a'u bod erbyn hyn yn gweithredu o fewn fframwaith strategol cydlynol a oedd, yn yr enghreifftiau gorau, yn cael ei weithredu yng nghyd-destun strategaeth gymuned ehangach.

Mae angen dwyn y gwaith hwn yn ei flaen yn awr, a thros weddill y cyfnod arolygu, byddwn yn disgwyl bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar reoli perfformiad, gan y Byrddau Rheoli a'r timau gweithredol, gan werthuso effeithiolrwydd ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ac ar gysylltiad cynyddol sefydliadau partner.

Arfer da	Roedd y Fenter Canol Tref yn Calderdale yn brosiect yn cael ei ariannu gan y TTI ac Action Halifax, a gafodd ei sefydlu i leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith plant a phobl ifanc yng nghanol Halifax. Roedd y prosiect yn dibynnu ar y cyfraniad gan y gymuned leol, i amlygu problemau a chyfranogi mewn cynlluniau. Er enghraifft, trwy wneud rhywfaint o waith i siop leol os oeddent wedi'u dyfarnu'n euog o siopladrad.

GWAITH YN Y LLYSOEDD

Roedd pob un o'r TTIau yr ymwelwyd â hwy yn ystod blwyddyn gyntaf cyfnod tri yr arolygiad wedi sefydlu trefniadau gweithio cadarnhaol gyda'u llysoedd lleol, ac yn gyffredinol roedd ganddynt barch mawr tuag atynt.

Cryfderau

- Roedd TTIau yn darparu staff medrus a phrofiadol i weithio yn y llysoedd a oedd yn unigolion uchel eu parch ymhlith gweithwyr proffesiynol eraill. Roedd y trefniadau cyflenwi yn ddigonol, ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer penwythnosau a Gwyliau Banc.
- Roedd nifer cynyddol o TTIau wedi gosod staff gweinyddol pwrpasol o fewn tîm y llys, a'u rôl hwy oedd cynorthwyo swyddogion llys i gasglu gwybodaeth yn y llysoedd.
- Roedd staff cymorth mechnïaeth yn gweithio'n galed i ddarparu pecynnau mechnïaeth credadwy i'r llys, ac yn gyffredinol roeddent yn llwyddiannus o ran cefnogi plant a phobl ifanc ar remand yn y gymuned heb dorri gofynion eu mechnïaeth.
- Roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i faterion diogelu, ac roedd cyswllt yn cael ei wneud â sefydliadau diogel lle'r oedd unrhyw blentyn neu berson ifanc yr ystyriwyd eu bod yn agored i hunan-niweidio neu fwlio naill ai'n cael eu rhoi ar remand neu'n cael eu dedfrydu i'r ddalfa.

Meysydd i'w gwella

- Nid oedd pob TTI wedi sefydlu Cytundebau Lefel Gwasanaeth neu brotocolau gyda'u llysoedd lleol.
- Roedd rhai rheolwyr TTI naill ai ddim yn aelodau neu ddim yn mynychu'u Grŵp Defnyddwyr Llys lleol.

Arfer da	Yn Hillingdon, roedd y cymorth gweinyddol cryf yn cael ei ddarparu gan y TTI i dîm y llys, a chysondeb y staff yn rhyddhau swyddogion i weithio'n flaenweithgar a nodi achosion lle'r oedd angen gwybodaeth ychwanegol ar blant a phobl ifanc a rhieni/gofalwyr, neu lle gellid cynnig pecynnau cymorth mechnïaeth.

ADRODDIADAU CYN-DEDFRYDU

Er i ni ganfod rhai agweddau ar waith y TTIau yn y llysoedd yr oedd angen ei wella, roedd ein maes pryder mwyaf yn ymwneud ag ansawdd Adroddiadau Cyn-dedfrydu yn cael eu hysgrifennu ar blant a phobl ifanc. Roedd ansawdd yr adroddiadau hyn yn amrywiol iawn. Roedd llawer ohonynt yn rhy hir ac yn cynnwys manylion amherthnasol.

Er bod rhai TTIau wedi gwneud trefniadau da iawn, nid oedd yr holl blant neu bobl ifanc, neu'u rhieni/gofalwyr, yn cael y cyfle i ddarllen adroddiad y llys yn iawn cyn y gwrandawiad. Roedd ein hadroddiad arolygiad thematig

ar rôl y TTIau mewn diogelu, *From Arrest to Sentence,* yn holi a yw plant a phobl ifanc mewn gwirionedd yn deall cynnwys yr adroddiad.



Cryfder

- Roedd rhan fwyaf yr adroddiadau'n cynnwys cynnig clir ar gyfer dedfrydu.

Meysydd i'w gwella

- Nid oedd un o bob pedwar PSR yn seiliedig ar Asset.
- Nid oedd digon o sylw'n cael ei roi i faterion bod yn agored i niwed.
- Roedd yr adran ar y drosedd fel arfer yn ailadrodd y datganiad o ddigwyddiadau a roddwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron, yn hytrach na dadansoddi ymddygiad neu gymhelliant y plentyn neu berson ifanc.
- Nid oedd safbwynt y dioddefwr yn cael sylw digonol ym mwyafrif yr adroddiadau.
- Ychydig dros hanner yr adroddiadau a archwiliwyd yn unig yr ystyriwyd eu bod o ansawdd boddhaol.

CASGLIAD

Er bod TTIau yn gyffredinol yn darparu gwasanaeth da i'w llysoedd lleol, roedd ansawdd yr adroddiadau cyn-dedfrydu yn peri pryder mawr. O gofio pwysigrwydd adroddiadau felly o ran pennu'r canlyniad dedfrydu, awgrymwn yn gryf bod sylw pellach yn cael ei roi i'r maes gwaith hwn, gan y BCI a'r TTIau eu hunain.

GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED

GWNEUD CYFRANIAD CADARNHAOL: ATAL TROSEDDU

Tra'n disgwyl cyllid pellach gan y BCI ar gyfer gwaith ataliol o fis Ebrill 2006, roedd mwyafrif y TTIau yr ymwelwyd â hwy yn ystod 2005/2006 wedi dechrau adolygu'u strategaeth atal, ac yn gweithredu'n aml yng nghyd-destun y fframwaith cyffredinol ar gyfer gwaith felly o fewn awdurdodau lleol. Roedd yn amlwg o'n hymweliadau â chynghorau gwahanol bod y mater wedi cael ysgogiad ychwanegol yn sgil pryder cyhoeddus cynyddol yn wyneb ymddygiad gwrthgymdeithasol gan blant a phobl ifanc, ac, mewn rhai awdurdodau, roedd proffil gwleidyddol uchel yn cael ei roi iddynt. Er bod rhan fwyaf y TTIau wedi gallu dwyn yr agenda ataliol yn ei flaen, ochr yn ochr â gwaith gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu, roedd yn amlwg bod gwaith ataliol, mewn rhai ohonynt, yn cael proffil strategol uwch.

Er ein bod yn cefnogi'n gryf y pwyslais cynyddol sy'n cael ei roi ar atal plant a phobl ifanc rhag troseddu, rydym wedi ymrwymo i sicrhau cynnal y cydbwysedd rhwng gwaith ar atal, a gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd eisoes wedi troseddu. Mae adsefydlu'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd wedi troseddu yn rhan annatod o'r agenda *Mae Pob Plentyn yn Bwysig* ac rydym yn parhau i bryderu ynghylch yr amrywiadau eang mewn arfer rhwng TTIau gwahanol wrth weithio'n flaenweithgar gyda'r glasoed anodd a heriol hyn.

Roedd tystiolaeth gynyddol o berthynas weithio dda rhwng y TTI a'i bartneriaid mewn gwaith ymyrraeth gynnar. Roedd nifer o fentrau ar waith yn galluogi'r heddlu i gyfeirio plant a phobl ifanc a oedd wedi'u ceryddu neu yr ystyriwyd eu bod mewn risg o droseddu, at y TTI. Roedd rhai TTIau yn gweithio gyda'r heddlu a'u hadran gwasanaethau plant lleol i leihau nifer y cyhuddiadau'n deillio o ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cartrefi preswyl awdurdod lleol trwy ymagwedd adferol.

Roedd rhaglenni ataliol yn gysylltiedig yn aml â darpariaeth addysg, er enghraifft, drwy'r Paneli Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid lleol, ac yn targedu gweithgareddau mewn ysgolion plant iau ac ysgolion uwchradd. Roedd ymyriadau felly yn effeithiol o ran cynnwys plant a phobl ifanc mewn risg mwyaf o droseddu ac o ran ail-flaenoriaethu addysg yn eu bywydau. Er enghraifft, roedd hyfforddi staff ysgol a chyfryngwyr cymheiriaid mewn gwaith cyfiawnder adferol a rhaglenni rheoli ymddygiad, wedi cyfrannu at ostyngiad mewn gwaharddiadau cyfnod penodol mewn rhai ardaloedd.

Nid oedd ONSET, yr erfyn asesu ar gyfer plant a phobl ifanc yr ystyrir eu bod mewn risg o droseddu, yn cael ei weithredu gan rai TTIau.

GWNEUD CYFRANIAD CADARNHAOL: ATAL AILDROSEDDU

YSTADEGAU ALLWEDDOL AROLYGIAD TTI 2005/2006

Er bod rhai TTIau yn perfformio ar lefel uchel, mae archwilio'r ystadegau allweddol o gyfnod tri'r arolygiad yn awgrymu bod angen i'r broses goruchwylio plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu i fod yn un llawer mwy cadarn. Yn syndod, ychydig o wahaniaeth ystadegol a ganfuom mewn perfformiad rhwng plant a phobl ifanc agored i niwed a'r rheiny wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau treisgar, ac mae hynny'n awgrymu bod rhan fwyaf y TTIau heb fabwysiadu ymagwedd gymesur eto at weithio gyda'r grwpiau mwy agored i niwed neu heriol.

Roedd yn amlwg o ddarllen y ffeiliau achos nad oedd rhai gweithwyr TTI yn deall y cysyniad rheoli achosion, ac, mewn rhai achosion, roeddent yn wrthwynebol yn athronyddol i'r syniad o gynnwys gweithwyr proffesiynol eraill mewn goruchwyliaeth plentyn neu berson ifanc, gan gredu y byddai hynny'n atal datblygiad eu perthynas eu hunain â hwy. Yn rhan fwyaf y TTIau, roedd y cynlluniau goruchwylio o ansawdd annigonol ac anaml yr oeddent yn cael eu hadolygu. Yn hynny o beth, roeddent yn methu darparu'r fframwaith strwythuredig yr oedd ei angen i sicrhau ymyrraeth lwyddiannus.

	Pob ffeil		**Pobl Ifanc Agored i Niwed**		**Troseddau Treisgar**	
	Nifer	**Canran**	**Nifer**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**
Asesiad cychwynnol wedi'i gwblhau yn unol â gofynion safonau cenedlaethol: - amseroldeb	579	80%	131	79%	180	83%
- ansawdd digonol	490	68%	116	71%	130	60%
Asesiad risg niwed llawn i eraill wedi'i gwblhau ar achosion perthnasol	168	65%	57	70%	73	71%
Tystiolaeth o ddiofalwch rheoli mewn achosion risg o niwed	32	38%	15	38%	14	41%
ISP yn bodloni gofynion cynnwys y safonau cenedlaethol ac yn cynnwys amcanion SMART	76	26%	26	29%	27	28%
Amlder yr apwyntiadau a drefnwyd yn cydymffurfio'n fras â safonau cenedlaethol, â gofynion gorchymyn/trwydded, ac unrhyw ystyriaethau risg o niwed	404	78%	107	75%	133	76%
Barnau ynghylch derbynioldeb/ annerbynioldeb	337	75%	97	78%	106	74%

absenoldebau yn briodol						
Camau torri/adalw wedi'u cymryd, os yn ofynnol, o fewn y raddfa amser safonol genedlaethol	95	54%	38	61%	30	64%
Dim tystiolaeth o unrhyw weithgarwch troseddol yn ystod cyfnod y gorchymyn	515	70%	105	63%	165	76%
Camau priodol wedi'u cymryd ar gyfer plant yr ystyrir eu bod yn agored i niwed ganddynt eu hunain ac eraill	112	82%	121	84%	31	79%
Camau effeithiol wedi'u cymryd lle mae tystiolaeth o anawsterau addysgol	175	64%	55	66%	51	64%
Os oes tystiolaeth o anghenion iechyd corfforol neu iechyd meddwl, neu o gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol, gwnaethpwyd cyfeiriad priodol	562	75%	63	77%	227	78%

Cryfderau

- Nid oedd unrhyw dystiolaeth o weithgarwch troseddol gan blant a phobl ifanc tra'n destun goruchwyliaeth gan y TTI ym mwyafrif yr achosion a archwiliwyd.
- Ystyriwyd bod barnau ynghylch derbynioldeb absenoldebau yn briodol mewn rhyw dri chwarter o'r holl achosion a archwiliwyd.
- Roedd amlder yr apwyntiadau'n cael eu cynnig yn bodloni gofynion y safon genedlaethol mewn dros dri chwarter yr achosion a archwiliwyd.

Meysydd i'w gwella

- Nid oedd ansawdd un o bob pump Asset a archwiliwyd yn ddigonol. Roedd y gyfran a gwblhawyd ar blant a phobl ifanc wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau treisgar, yr ystyriwyd eu bod o ansawdd ddigonol, gryn dipyn yn is na'r rheiny a gwblhawyd ar grwpiau eraill, ac mae hynny'n destun gofid.
- Roedd gwaith gyda phlant a phobl ifanc yr ystyriwyd eu bod yn peri risg niwed i eraill yn parhau'n faes pryder parhaus. Nid oedd llawer o weithwyr TTI yn cwblhau'r erfyn asesu llawn risg o niwed yn ôl y gofyn. Nid oedd asesiad risg o niwed llawn yn cael ei gwblhau ar un o bob pedwar person ifanc yn cael ei ddyfarnu'n euog o droseddau treisgar.
- Nid oedd achosion yn cael eu nodi fel *risg ganolig* neu *risg uchel* yn cael eu cyfeirio at reolwyr bob tro yn unol â'r arweiniad. Nid oedd rhai rheolwyr yn gwneud cofnod yn y cofnod achos o hyd, i

ddangos eu bod wedi darllen y ffeil a'u bod yn cefnogi'r ymagwedd a oedd yn cael ei mabwysiadu.

- Roedd ansawdd cyffredinol y cynlluniau goruchwyliaeth yn isel iawn ar y cyfan, ac mae hynny'n awgrymu bod angen mwy o arweiniad gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gwblhau'r cynlluniau.
- Roedd angen gwella ansawdd rheolaeth achosion, a gwneud mwy o ddefnydd o'r adnoddau arbenigol sydd ar gael.
- Cymerwyd camau torri o fewn y raddfa amser safonol genedlaethol mewn ychydig dros hanner yr holl achosion perthnasol, ond mewn cyfran ychydig yn uwch o blant a phobl ifanc yn cael eu dyfarnu'n euog o droseddau treisgar.

Arfer da	Roedd TTI Windsor a Maidenhead wedi datblygu system 'Porth Ymarferwyr' electronig a oedd yn cynnwys llyfrgell o wybodaeth ymarfer a oedd ar gael yn hawdd i bob aelod o staff. Roedd y system yn cael ei diweddaru'n gyson, ac roedd gweithwyr arbenigol yn gyfrifol am ddiweddaru'u meysydd penodol.

RHYBUDDION TERFYNOL

Nid oedd arweiniad 2002 y BCI ar rybuddion terfynol yn cael ei ddefnyddio'n gyson, ac mewn rhai achosion, nid oedd staff heddlu'r TTI yn ymwybodol o'i fodolaeth. Yn ddigon tebyg, nid oedd protocolau a gweithdrefnau lleol, lle'r oeddent ar gael, yn adlewyrchu'r arweiniad o hyd.

Roedd dulliau o gyflwyno rhybuddion terfynol yn amrywio. Mewn llawer o ardaloedd, nid oedd cydymffurfio â rhybuddion terfynol mwyach, ac roedd TTIau wedi datblygu systemau anghymesur ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn cael rhybuddion terfynol. Mewn rhai achosion, roedd mentrau lleol wedi datblygu'n llwyddiannus i sicrhau bod lefelau ymyrraeth cefnogol a phwrpasol, yn seiliedig ar asesu cadarn, yn cael eu darparu i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mewn meysydd eraill, golygai defnydd cyfyngedig o asesu bod plant a phobl ifanc yn debygol o gael ymyriadau bras ac amhenodol.

Serch hynny, roeddwn yn falch o nodi y bu gwelliannau mewn canrannau, er 2004, ar draws yr ystod gweithgareddau allweddol rhwng TTIau a'r heddlu.



Cryfder

- Roedd rhybuddion terfynol yn cael eu cyflwyno'n briodol cyn pen 20 diwrnod i benderfyniad mewn 83% o achosion, ac roedd ymyrraeth yn digwydd fel rhan o'r rhybudd mewn 71% o'r holl achosion a gafodd eu hadolygu.

Meysydd i'w gwella

- Roedd yr heddlu'n hysbysu'r TTI am benderfyniad i gyflwyno rhybudd terfynol cyn pen un diwrnod gwaith mewn 59% o achosion.
- Roedd y TTI yn cynnal asesiadau rhybudd terfynol o blant a phobl ifanc o fewn y terfyn amser safonol cenedlaethol mewn 62% o achosion. Lle'r oedd plant a phobl ifanc yn cael mechnïaeth i'w hasesu, roedd y TTI wedi hysbysu'r heddlu am y canlyniadau asesu cyn pen 15 diwrnod gwaith mewn 56% o achosion. Roedd y ffigurau hyn, er nad oeddent yn foddhaol, yn dal i ddangos rhywfaint o welliant ar berfformiad 2004/2005.
- Roedd asesiad llawn yn cael ei gwblhau ar lai na hanner yr holl achosion perthnasol.
- Yn gyffredinol roedd angen gwella rhan y dioddefwr yn y broses rhybudd terfynol.

GORCHMYNION CYFEIRIO

Adroddodd llawer o TTIau bod defnydd cynyddol yn nifer y gorchmynion cyfeirio. A siarad yn fras, roedd y rhan fwyaf yn cael eu cynnal yn amserol, gydag oedi'n digwydd fel arfer oherwydd anawsterau yn sgil presenoldeb y plentyn neu berson ifanc. Yn unol â'r canllawiau, roedd pwyslais yn cael ei roi ar ymagwedd cyfiawnder adferol.



Cryfderau

- Roedd bron i dri chwarter yr holl orchmynion cyfeirio yn cael eu cyflwyno'n unol â gofynion y contract, ac ychydig iawn oedd yn gorffen cyn pryd.
- Roedd mwyafrif y contractau'n canolbwyntio ar blant, ac roedd cydweddu agos rhwng yr ymyriadau a gynlluniwyd a'r risg o niwed a aseswyd.

Meysydd i'w gwella

- Dim ond ychydig dros hanner yr holl ddioddefwyr a gafodd eu gwahodd i gyfarfodydd panel, ac roedd eu lefel presenoldeb yn isel.

CASGLIAD

Er bod mwyafrif y TTIau wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, yn enwedig yn lefel y cysylltiad yn cael ei gynnig i blant a phobl ifanc, ac mewn camau gorfodi, roedd y dargyfeiredd mewn perfformiad rhwng y timau unigol yn rhy eang o hyd. Roedd asesiadau risg o niwed llawn yn cael eu cwblhau bellach mewn cyfran uwch o achosion perthnasol, ond, er gwaetha'r arweiniad diweddar yn cael ei gynnig gan y BCI, nid oedd y broses yn cael ei derbyn na'i deall yn gyffredinol o hyd. Yn hynod siomedig, nid oedd chwarter yr Assets a gwblhawyd yn bodloni'r safon ofynnol o hyd, ac mae hynny'n ein gadael ni i gwestiynu ansawdd ac effeithiolrwydd ymyriadau dilynol gyda'r plant a'r bobl ifanc hyn.

Arfer da	Yn Northamptonshire, o ganlyniad i adolygiad o anghenion llety a gomisiynwyd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn 2002, defnyddiwyd arian Diogelwch Cymunedol, trwy'r Prosiect Lleihau Troseddau Ieuenctid, i benodi tîm llety. O ganlyniad, gwnaed 27 o unedau llety ar gael, gan leihau dibynadwyedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar Lety

	Gwely a Brecwast a throseddu ymhlith y plant a'r bobl ifanc yn cael llety. Disgrifiodd adolygiad lleol Cefnogi Pobl y gwasanaeth fel un a oedd "yn darparu ansawdd da… am bris y gellir ei fforddio".

BOD YN IACH

Yn y flwyddyn ddiwethaf, nododd Asset faterion iechyd mewn cyfran sylweddol o'r plant a'r bobl ifanc yn cael eu goruchwylio gan y TTI. Er mai cyfran gymharol fach o blant a phobl ifanc oedd ag anghenion iechyd corfforol, i lawer, dim ond trwy eu cyswllt â'r TTI yr oedd y rhain wedi'u nodi, ac roeddent yn cynnwys cyflyrau fel byddardod neu olwg gwael, y dylid fod wedi'u nodi trwy brosesau sgrinio cyffredinol. Roedd cryn ystod o faterion iechyd meddwl, gan gynnwys Anhwylder Gorfywiogrwydd Diffyg Canolbwyntio (ADHD), problemau iechyd meddwl difrifol, iselder ac anhwylderau eraill.

Er bod cyfran uchel o blant a phobl ifanc wedi cyfaddef iddynt ymwneud â rhyw ffurf ar gamddefnyddio cyffuriau, dim ond lleiafrif yr ystyriwyd eu bod yn ddefnyddwyr o ddifrif. Roedd nifer sylweddol, fodd bynnag, wedi arbrofi gydag ystod o gyffuriau stryd. I rai, roedd eu cysylltiad â chyffuriau yn ddiau yn eu rhoi mewn risg uwch o aildroseddu. Yn yr un modd, roedd alcohol yn cael effaith niweidiol ar ymddygiad plant a phobl ifanc, yn enwedig ymhlith merched a merched ifainc, lle canfuwyd bod y lefel camddefnyddio gryn dipyn yn uwch.



Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'r rheiny a ganfuwyd gan y Comisiwn Archwilio yn ei adolygiad o'r system cyfiawnder ieuenctid, *Youth Justice 2004,* a wnaeth sylwadau ar y cynnydd sylweddol a ganfuwyd mewn problemau iechyd ymhlith plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu. Hefyd, amlygwyd ganddynt yr her sy'n wynebu TTIau wrth gydbwyso anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn erbyn anghenion y gymuned ehangach, a chysylltu â'r ddadl gyfredol ynghylch cyfrifoldebau cymdeithas i blant a phobl ifanc a chanddynt faterion problemau iechyd yn y system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion mewn adroddiad diweddar (*Child Defendants:* Papur achlysurol OP56 Mawrth 2006 Coleg Brenhinol y Seiciatryddion), gellir rhoi sylw i ymddygiad troseddol ac anghenion therapiwtig y plentyn ar yr un pryd.

Cryfderau:

- Roedd gan fwyafrif y TTIau weithiwr gofal iechyd ar secondiad bellach, y rhan fwyaf ohonynt yn dod o gefndir iechyd meddwl. Roedd yr arbenigedd cynyddol hwn yn adlewyrchu'r anghenion a nodwyd yn y llwyth gwaith, gyda 41% o blant a phobl ifanc yn cael eu hasesu fel rhai a chanddynt anghenion iechyd meddwl.
- Roedd mynediad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i gael cyngor, cymorth a chyfeiriad, wedi gwella dros y ddwy flynedd diwethaf, gydag 80% o weithwyr gofal iechyd bellach yn adrodd bod mynediad da i gymorth, o gymharu â 50% yn 2004. Fodd bynnag, roedd hynny'n dal i olygu nad oedd un o bob pum gweithiwr iechyd yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt os oeddent i fodloni anghenion iechyd y boblogaeth TTI.
- Roedd y gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau a oedd yn cael eu darparu i'r TTIau, a siarad yn fras, yn deg ar draws y wlad, gyda 90% o TTIau â gweithiwr camddefnyddio sylweddau ar y safle. Roedd rhan fwyaf y plant a'r bobl ifanc a oedd wedi troseddu yn cael eu sgrinio am gamddefnyddio cyffuriau, ac yna'n cael eu cyfeirio ymlaen ar gyfer ymyriadau pellach fel yr oedd yn ofynnol. Fel arfer roedd gan weithwyr camddefnyddio sylweddau fynediad da i'w rhiant wasanaeth i gael cymorth mwy arbenigol Haen 3.

Meysydd i'w gwella:

- Roedd nifer sylweddol o TTIau nad oeddent o hyd yn defnyddio naill ai erfyn sgrinio iechyd meddwl y BCI, sef y cam nesaf yn y broses asesu, nac ymagwedd arall, ddilys. Yn lle hynny, roedd plant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol neu anghenion iechyd meddwl yn cael eu cyfeirio'n aml ar sail *ad hoc*, a chanlyniad hynny oedd bod rhai, a fyddai wedi elwa ar asesiad emosiynol a/neu iechyd meddwl manylach, yn cael eu hesgeuluso.
- Hyd yn oed lle nododd Asset angen iechyd meddwl/camddefnyddio cyffuriau yn gysylltiedig ag ymddygiad troseddol, nid oedd chwarter y plant a'r bobl ifanc hyn yn cael eu cyfeirio ymlaen o hyd i gael asesiad arbenigol a/neu driniaeth arbenigol.
- Roedd amrywiad daearyddol eang yn yr ymyriadau'n cael eu cynnig gan weithwyr gofal iechyd TTI, ac roedd hynny'n adlewyrchu cefndir proffesiynol y gweithwyr hynny weithiau yn fwy nag anghenion y plant a'r bobl ifanc eu hunain.
- Roedd mynediad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) i gael cymorth, cyngor a goruchwyliaeth briodol yn dal yn anodd mewn rhai TTIau. Darpariaeth gyfyngedig o CAMHS Haen 3/4 oedd mewn rhai ardaloedd, ac roedd y bobl ifanc yn gorfod wynebu amserau aros hir. Roedd rhai grwpiau plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai 16 ac 17 oed, a'r rheiny a chanddynt anghenion deuol camddefnyddio cyffuriau ac iechyd meddwl, yn ei chael yn arbennig o anodd cael mynediad i wasanaethau.
- Nid oedd mwyafrif y TTIau yn ymgymryd ag unrhyw waith monitro systematig o ganlyniadau iechyd i asesu a oedd yr ymyriadau gofal

iechyd yr oeddent yn eu cynnig yn cael effaith, neu ai'r ffurf ymyrryd fwyaf priodol oeddent.

- Nid oedd protocol ffurfiol ar gyfer rhannu gwybodaeth gan lawer o TTIau o hyd i reoli cyfnewid gwybodaeth rhwng gweithwyr arbenigol (iechyd a chamddefnyddio sylweddau) a rheolwyr achos TTI. Roedd hyn wedi cyfrannu at arferion cadw cofnodion annigonol a chydweithio gwael mewn rhai TTIau.
- Mewn rhai ardaloedd, roedd darpariaeth dda ar gyfer y rheiny a oedd yn camddefnyddio cyffuriau, ond dim ond gwasanaeth cyfyngedig oedd ar gael i blant a phobl ifanc a oedd yn camddefnyddio alcohol.
- Roedd gwasanaethau preswyl Haen 4 ar gyfer camddefnyddio sylweddau i blant a phobl ifanc yn parhau'n ddifrifol o gyfyngedig ar draws y wlad.

CASGLIAD

Er bod yr arolygiad wedi nodi enghreifftiau o arfer unigol da, roedd llawer o'r materion y nodwyd bod angen eu gwella yn arwydd o ddiffyg cysylltiad strategol rhwng y TTI a'r YGS cynrychiadol. Mae angen rhoi sylw i ansawdd y cysylltiad hwn er mwyn gwella'r bylchau mewn cyflwyno gwasanaeth a ganfuwyd gan yr arolygiad.

CADW'N DDIOGEL

Mae gan bob TTIau ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Mae gan lawer o'r plant a'r bobl ifanc sydd â chysylltiad â hwy ffordd o fyw anhrefnus sy'n creu mwy o risg iddynt na'u cyfoedion. Mae'n hanfodol felly bod TTIau yn cael eu hintegreiddio i'r fframwaith 'Gweithio Gyda'n Gilydd' a bod ganddynt systemau a gweithdrefnau o safon uchel i sicrhau bod pob plentyn yn cadw'n ddiogel.

Cryfderau

- Roedd nifer cynyddol o TTIau yn gysylltiedig â datblygu Byrddau Diogelu Lleol, ac roedd enghreifftiau da ohonynt yn defnyddio'u harbenigedd i arwain wrth ddatblygu meysydd strategol ar ran y Byrddau Diogelu Lleol. Roedd hwn yn newid mawr o gysylltiad cyfyngedig TTIau a nodwyd yn y cyd-adolygiad diogelu cyntaf, a dengys y twf mewn hyder TTIau wrth gyfrannu at y maes gwaith hwn.
- Roedd gan ran fwyaf y TTIau bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff a gwirfoddolwyr yn cael archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) cyn dechrau gweithio gyda phlant a phobl ifanc.
- Roedd TTIau yn dod yn fwy effeithiol wrth asesu a rhannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc agored i niwed a oedd naill ai ar remand yn y ddalfa neu a chanddynt ddedfrydau o gaethiwed. Roedd protocolau a gweithdrefnau cyfrannol rhwng TTIau a charchardai wedi helpu cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch materion diogelu. Fodd bynnag, roedd lle i wella o hyd i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu diogelu wrth iddynt fynd i mewn i'r system gadw.

Meysydd i'w gwella

- Nid oedd gan bob TTI systemau ar waith i sicrhau bod archwiliadau CRB dilynol yn cael eu cynnal.
- Er bod gan niferoedd cynyddol o TTIau fynediad i gronfeydd data gofal cymdeithasol plant, nid oedd y rhain yn cael eu defnyddio i gael y budd mwyaf. Yn aml nid oedd gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n effeithiol na'i defnyddio i gyfrannu at gynllunio a goruchwyliaeth. Yn rhy aml, roedd cofnodion yn methu dangos a oedd plentyn neu berson ifanc ar y Gofrestru Amddiffyn Plant neu a oedd y rheolwr achos wrthi'n gweithio gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn.
- Roedd angen gwella'r drefn o asesu natur agored i niwed plant a phobl ifanc. Roedd ymddygiadau risg fel camddefnyddio sylweddau a'u potensial ar gyfer cam-fanteisio rhywiol yn cael eu hesgeuluso weithiau fel materion diogelu, ac nid oedd camau'n cael eu cymryd. Hyd yn oed lle'r oedd camau'n cael eu cymryd, nid oeddent yn gamau priodol o hyd, ac, mewn 19% o achosion a gafodd eu hadolygu yn ystod yr arolygiad, nid oeddent yn ddigonol i ddiogelu lles y plentyn neu'r person ifanc. Roedd angen i adolygiadau amserol ac adolygiadau sy'n canolbwyntio fod yn gyffredinol hefyd

er mwyn sicrhau ailasesu anghenion plant a phobl ifanc yn effeithiol.

- Nid oedd hyfforddiant mewn diogelu plant yn rhan o hyfforddiant craidd staff a gwirfoddolwyr TTI o hyd. Roedd angen blaenoriaethau hyfforddiant felly, gyda sesiynau diweddaru cyson, ar gyfer pob aelod o staff a gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau arfer cyson a diogel.
- Roedd llawer o TTIau yn methu bodloni'u gofynion i raddau helaeth i gynnal ymweliadau cartref. Roedd deall amgylchedd cartref plentyn neu berson ifanc yn hollbwysig i ddiogelu'u hanghenion a chysylltu â'u rhieni a'u gofalwyr.
- Roedd gor-gynrychiolaeth i Blant sy'n Derbyn Gofal yn y system cyfiawnder troseddol, ac er bod ymwybyddiaeth gynyddol yn y TTIau ynghylch eu hanghenion, mewn 14% o achosion Plant sy'n Derbyn Gofal a archwiliwyd yn ystod yr arolygiad, ni wnaethpwyd unrhyw gysylltiad â'r awdurdod lleol, sef rhiant corfforaethol y plentyn. Cafodd y diffyg cyswllt hwn effaith ar gynllunio effeithiol ar gyfer canlyniadau cadarnhaol i'r plant a'r bobl ifanc hyn.

CASGLIAD

Er bod gwelliannau cyffredinol yn cael eu gwneud gan ran fwyaf y TTIau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cadw'n ddiogel, roedd cynnydd yn y maes hwn yn llesteiriol o araf. Er bod cysylltiadau strategol calonogol yn cael eu sefydlu rhwng TTIau a'u hadran gwasanaethau plant lleol, roedd y lefel isel o gyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth, a ganfuwyd mewn rhai awdurdodau rhwng y ddwy asiantaeth mewn achosion lle'r oedd gan bob un ohonynt ddiddordeb, yn annerbyniol. Roedd sgrinio a hyfforddiant mwy effeithiol i staff a gwirfoddolwyr yn hanfodol i greu amgylchedd gweithio diogel. Hefyd, roedd angen blaenoriaethu sylw i ymddygiad risg, a gweld plant a phobl ifanc yn amgylchedd eu cartref. Gyda datblygiad calonogol asesiad y BCI o natur agored i niwed plant a phobl ifanc, roedd gan TTIau y gallu bellach i sicrhau bod diogelu yn sylfaen eu holl waith.

MWYNHAU A CHYFLAWNI, A CHYFLAWNI LLES ECONOMAIDD

Cydnabyddir yn eang pwysigrwydd dilyniant o addysg i annibyniaeth ddilynol fel rhan hanfodol o'r broses aeddfedu i'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc. Cydnabyddir hefyd bod llawer o'r rheiny sy'n gysylltiedig â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael anawsterau penodol gyda'u haddysg, ac y gall dychwelyd i addysg amser llawn eu helpu i roi'r gorau i droseddu yn aml. Dyna pam y rhoddir gymaint o bwysigrwydd ar darged y BCI, sef bod 90% o blant a phobl ifanc yn cael eu goruchwylio gan y TTI i'w rhoi mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth briodol.



Unwaith eto, mae canfyddiadau'r arolwg yn adlewyrchu canfyddiadau arolwg y Comisiwn Archwilio, *Youth justice 2004.* Roedd y rhesymau y soniwyd amdanynt amlaf dros gael anawsterau mewn addysg yn cynnwys triwantiaeth, bwlio a gwaharddiadau tymor byr aml. O gofio'r pwysigrwydd a roddir ar gyflawniad addysgol fel ffactor amddiffynnol yn erbyn aildroseddu, roedd yn siomedig iawn felly i ganfod mai dim ond deg o'r 23 o TTIau a gafodd eu harolygu dan gyfnod tri yn 2005/2006, oedd wedi gwella'u perfformiad yn erbyn targedau perfformiad Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth y BCI o 2004/2005, ac mai dau yn unig oedd wedi cyflawni'r targed.

Cryfderau

- Canfuwyd arfer gorau yn y TTIau hynny lle'r oedd yr awdurdod lleol yn amlwg mewn rheolaeth strategol ac wedi sicrhau bod staff addysg ar secondiad yn cael mynediad i fecanweithiau cymorth, hyfforddi a datblygu staff awdurdod lleol yn ogystal â gwasanaethau cymorth yn cael eu darparu'n fewnol.
- Yn y TTIau hynny lle'r oedd gan staff addysg berthynas weithio dda â'r awdurdod lleol, a lle'r oedd cytundebau protocol yn glir ac wedi'u

sefydlu'n dda, roedd cynnydd wedi'i wneud yn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant priodol, yn bennaf ar gyfer plant a phobl ifanc o oed ysgol.

- Roedd gweithio ar y cyd rhwng staff addysg a gweithwyr TTI ar lefel weithredol wedi datblygu'n dda yn rhan fwyaf y timau. Roedd mynediad i wybodaeth ganolog awdurdod lleol am blant a phobl ifanc unigol a oedd yn hysbys i'r TTIau wedi gwella'n gyffredinol.
- Gwnaethpwyd cynnydd parhaus mewn dyrannu darpariaeth i blant o oed ysgol i leoliadau addysg priodol. Yn yr arfer gorau, roedd trefniadau cadarn ar waith i sicrhau monitro presenoldeb a chynnydd yn fanwl. Roedd y TTIau hyn, lleiafrif bach ond arwyddocaol, wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran integreiddio plant o oed ysgol yn ôl i ddarpariaeth prif ffrwd ar sail amser llawn.
- Mewn lleiafrif o TTIau, roedd adolygiadau misol yn cael eu cynnal i olrhain pob plentyn a pherson ifanc a oedd yn gysylltiedig ag Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, mewn cydweithrediad â Chynghorwyr Personol Connexions fel arfer.

Arfer da	
	• Yn Doncaster, roedd Cynghorwyr Personol Connexions wedi cwblhau asesiad ar gyfer pob person ifanc pan gawsant eu cyfeirio yn y lle cyntaf at y TTI, ac roeddent yn monitro ac yn arfarnu cynlluniau dysgu unigol yn gyson. • Roedd TTI Swydd Stafford, mewn cydweithrediad ag ysgolion lleol, Connexions a chyflogwyr, wedi datblygu ystod o ymyriadau llwyddiannus ar gyfer pobl ifanc a oedd yn cael anawsterau o ran dod o hyd i leoliadau priodol wrth iddynt adael yr ysgol, ac roeddent wedi cyflawni lleoliadau ar gyfer 82% o bobl ifanc dros 16 oed mewn rhyw ffurf o Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth. • Roedd TTI Northumberland wedi datblygu rhaglenni hyfforddi achrededig ar gyfer pobl ifanc ar y Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys (ISSP) a rhaglen hyfforddiant 12 wythnos i fodloni anghenion cyn-Mynediad i Addysg (E2E).

Meysydd i'w gwella

- Nid oedd yr holl staff addysg yn cael y cymorth a'r oruchwyliaeth angenrheidiol gan eu rhiant sefydliad i'w cynorthwyo yn eu gwaith o wella mynediad i ddarpariaeth addysg. Mewn rhai achosion, roedd staff addysg wedi'u hynysu o arfer ac adnoddau addysg prif ffrwd, ac roedd hynny'n cael effaith ar eu heffeithiolrwydd cyffredinol.
- Roedd gweithdrefnau cyfeirio a phrotocolau rhannu gwybodaeth rhwng y TTI ac asiantaethau perthnasol, fel ysgolion, Connexions a gwasanaethau lles addysg, yn rhai ad hoc neu aneffeithiol mewn gormod o achosion. Nid oedd gan gyfran sylweddol o bobl ifanc unrhyw gyswllt â chynghorydd personol Connexions.

- Roedd staff addysg a rheolwyr achos heb gael hyfforddiant mewn asesiadau medrau sylfaenol (llythrennedd a rhifedd) yn gyffredinol, ac nid oedd staff addysg yn gysylltiedig yn aml â chwblhau Assets cychwynnol neu derfynol. O ganlyniad, gwan at ei gilydd oedd y gwaith asesu anghenion addysgol i blant a phobl ifanc.
- Roedd gwybodaeth yn cael ei derbyn am lefelau cyrhaeddiad addysgol unigol gan ysgolion naill ai ar goll neu'n anghyflawn, ac felly nid oedd o fawr o werth i'r broses Asset gychwynnol. Pan oedd anghenion medrau sylfaenol yn cael eu nodi, roedd diffyg darpariaeth wedi'i theilwra'n briodol yn tanseilio unrhyw fanteision cychwynnol a gafwyd.
- Roedd niferoedd y bobl ifanc mewn addysg amser llawn, cyflogaeth neu hyfforddiant ôl-16 gryn dipyn yn is na'r rheiny o oed ysgol. Nid yw'r gwahaniaeth hwn rhwng y ddau grŵp oed, h.y. cyn-16 ac ôl-16 yn cael ei ddangos ar hyn o bryd yn ffigurau chwarterol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
- Nid oedd y ddarpariaeth ar gyfer plant o oed ysgol a phobl ifanc yn bodloni'r gofyniad statudol wythnosol o 25 awr yn aml. Roedd rhan fwyaf y TTIau yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i leoliadau addysgol amser llawn priodol i blant a phobl ifanc oherwydd ystod cyfyngedig darpariaeth arall, yn enwedig ar gyfer y rheiny wedi'u gwahardd o'r ysgol neu'r rheiny ar Orchymyn Cadw a Hyfforddi (GCH); mewn o leiaf un ardal TTI, roedd 'gwaharddiadau' anffurfiol gan ysgolion yn cael eu gwneud. Nid oedd trefn systematig o olrhain y plant a'r bobl ifanc hyn ac nid oedd cyfeirio strategol digonol gan y grŵp rheoli i fynd i'r afael â'r mater hwn.
- Er bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag anawsterau mewn addysg ym mwyafrif yr achosion, dim ond mewn dwy ran o dair o'r holl achosion a archwiliwyd yr oeddent yn llwyddiannus. Roedd ailintegreiddio yn ôl i addysg prif ffrwd yn anghyson. Roedd y mater hwn yn parhau i fod yn broblem ddifrifol mewn rhai ardaloedd, gyda phlant a phobl ifanc yn aros allan o addysg am gyfnodau estynedig.

CASGLIAD

Roedd canfyddiadau'r arolwg yn cadarnhau pwysigrwydd Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth i'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n hysbys i'r system cyfiawnder ieuenctid, a diffyg paratoi digonol ar gyfer rhaglenni gwaith a rhaglenni llythrennedd a rhifedd sylfaenol ar gyfer y rheiny'n nesáu at oed gadael ysgol, neu hŷn, sydd â chefndir o gyrhaeddiad addysgol gwael. Roedd y canfyddiadau'n amlygu, yn benodol, y prinder difrifol o Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth briodol ar gyfer pobl ifanc ôl-16, ac yn arbennig y ddarpariaeth cyn-E2E yn rhan fwyaf yr ardaloedd. Roedd arwyddion cynnar yn awgrymu bod cynnwys canfyddiadau arolwg y TTI yn y broses Adolygiadau Ardal ar y Cyd (JAR) yn codi proffil a phwysigrwydd y materion hyn gyda chynghorau lleol.

Arfer da	Dim ond lleiafrif bach o TTIau oedd wedi gwneud cynnydd o ran sicrhau lleoliadau Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth addas ar gyfer pobl ifanc 16 oed a hŷn. Roedd TTI

	Calderdale wedi cyd-drafod ystod da o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ôl-16 yn llwyddiannus gyda saith o ddarparwyr hyfforddiant E2E ar draws y fwrdeistref; roedd gweithwyr addysg yn rhoi sylw da i faterion amrywiaeth, ac yn arbennig anghenion merched a menywod ifanc a grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Hefyd, roedd Coleg Calderdale wedi ymestyn ei ddarpariaeth trwy gynnig diwrnodau blasu i bobl ifanc ôl-16 a oedd yn mynychu'r Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys (ISSP).

GWAITH GYDA RHIENI/GOFALWYR

Yn ystod cyfnod yr arolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o waith arloesol yn cael ei wneud gyda grwpiau o rieni/gofalwyr gan gydlynwyr rhianta brwdfrydig. Roedd llawer o'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn wirfoddol, ac yn aml ar y cyd â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol eraill. Fel arfer, roedd gorchmynion statudol yn cael eu defnyddio pan oedd hynny'n gwbl angenrheidiol yn unig i sicrhau cydymffurfio.

Er bod llawer o'r gwaith a welwyd yn rhagorol, yn aml nid oedd digon o gyfathrebu rhwng y rheiny a oedd yn cynnal y grwpiau a'r rheolwr achos a oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r plentyn neu'r person ifanc. O gofio bod mwyafrif y plant a'r bobl ifanc sydd dan oruchwyliaeth TTIau yn dal yn ddibynnol ar eu rhieni/gofalwyr, cawsom ein synnu o weld nad oedd rheolwyr achos yn rhoi mwy o bwyslais i rôl rhieni/gofalwyr.

Cryfderau

- Roedd 88% o rieni/gofalwyr yn gysylltiedig ag asesiad o'r plentyn neu berson ifanc, lle'r oeddent dan 16 oed.
- Roedd 84% yn cael gwybodaeth gyson am y cynnydd a oedd yn cael ei wneud gan eu plentyn yn ystod cyfnod y gorchymyn.

Maes i'w wella

- Roedd y lefel ymweld â chartrefi yn amrywio cryn dipyn. Ychydig iawn o ymweliadau oedd rhai TTIau yn eu gwneud, ac nid oedd un TTI yn ymweld â chartrefi o gwbl, tra bod eraill yn cynnal cyswllt cyson â chartref a theulu'r plentyn neu berson ifanc. At ei gilydd, roedd ein trefn darllen ffeiliau yn dangos bod ymweliadau'n cael eu gwneud ag achosion yn unol â gofynion y safon genedlaethol mewn 65% o achosion, gyda'r ystod rhwng TTIau gwahanol rhwng 0%-100%.

CASGLIAD

Mae'r mater hwn wedi'i amlygu gan y BCI a byddwn yn edrych am welliant sylweddol mewn cysylltiad rhieni/gofalwyr yn y dyfodol. Mae perthnasoedd teulu da yn ffactor allweddol mewn diogelu plant a phobl ifanc rhag troseddu, a dylai cynnal y perthnasoedd hynny, lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol, fod yn rhan annatod o waith y TTI.

Arfer da	Yn Hownslow, darparodd y TTI grŵp rhianta a oedd yn cael ei hyrwyddo'n weithredol i sbectrwm eang o rieni/gofalwyr. Buom yn arsylwi un grŵp, nad oedd y rhan fwyaf ohonynt yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Roedd y ffocws i raddau helaeth iawn ar rymuso. Roedd sesiynau'n cael eu cynnal mewn modd sensitif, a'u cyflymder yn cael ei osod i hyrwyddo cyfranogiad i'r eithaf. Gwnaethpwyd y gorchwyl hwn yn un cymhleth gan ystod yr ieithoedd cyntaf gwahanol o fewn y grŵp, ac roedd yr arweinwyr grŵp yn defnyddio deunyddiau, gwasanaethau cyfieithu a medrau aelodau'r

	grŵp i hyrwyddo cyfathrebu effeithiol yn y sesiynau.

CANLYNIADAU MEWN GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N TROSEDDU

GWNEUD CYFRANIAD CADARNHAOL

I gloi, wrth ystyried i ba raddau y mae gwaith y TTIau wedi helpu plant a phobl ifanc wneud cyfraniad cadarnhaol at y cymunedau y maent yn byw ynddynt, tra'u bod yn parhau'n iach, yn cadw'n ddiogel, ac yn mwynhau ac yn cyflawni, cymharom ganfyddiadau'r arolygiadau a gynhaliwyd yn 2005/2006 fel rhan o gyfnod tri'r rhaglen â'r canlyniadau o gyfnod dau.



[Text for above]

Key statistics….
Ystadegau Allweddol – Cyfnod Dau a Chyfnod Tri

Frequency of appointments…
Amlder yr apwyntiadau a drefnwyd yn cydymffurfio'n fras â safonau cenedlaethol, â gofynion y gorchymyn/trwydded, ac unrhyw ystyriaethau risg o niwed

ISP meets the content…
ISP yn bodloni gofynion cynnwys y safonau cenedlaethol ac yn cynnwys amcanion SMART

Evidence of management…
Tystiolaeth o ddiofalwch rheoli mewn achosion risg o niwed

Full risk of harm to others…
Asesiad risg niwed llawn i eraill wedi'i gwblhau ar achosion perthnasol

Initial assessment…
Asesiad cychwynnol wedi'i gwblhau yn unol â gofynion safonau cenedlaethol: ansawdd digonol

violent offences – troseddau treisgar
vulnerable young people – pobl ifanc agored i niwed
all – pawb

Phase 2 – Cyfnod 2
Phase 3 – Cyfnod 3

Cryfderau

- Roedd cyfran yr asesiadau risg o niwed llawn ar achosion perthnasol wedi cynyddu'n sylweddol.
- Roedd lefelau cyswllt â phlant a phobl ifanc wedi gwella ychydig, ac roedd dros dri chwarter yn cael cynnig apwyntiadau yn unol â'r safon genedlaethol.

Meysydd i'w gwella

- Roedd ansawdd y rhai'n cwblhau Asset wedi aros yr un fath i raddau helaeth, er bod trafodaethau gydag ymarferwyr yn awgrymu bod ganddynt ddealltwriaeth well o'i werth fel erfyn asesu i helpu cynllunio. Roedd y gostyngiad yng nghyfran y rhai'n cwblhau'n foddhaol ar y rheiny wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau treisgar, fodd bynnag, yn peri pryder, ac yn gofyn am ymchwilio pellach.
- Nid oedd rheolwyr yn gwneud cofnod o hyd yn y cofnod achos i ddynodi eu bod wedi goruchwylio'r achos. Roedd yn destun pryder arbennig i ganfod nad oedd ymron i ddwy ran o dair o'r rheiny'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, a oedd wedi cael asesiad risg o niwed llawn ac yr ystyriwyd eu bod yn agored i niwed naill ai ganddynt eu hunain neu gan eraill, wedi bod yn destun unrhyw archwiliad amlwg gan reolwyr.
- Credwyd bod y gostyngiad yng nghyfran y cynlluniau goruchwylio boddhaol yn adlewyrchu'r dryswch cyffredinol ymhlith gweithwyr TTI ynghylch diben cynlluniau felly, ac yn atgyfnerthu'r angen am fwy o arweiniad ar y mater gan y BCI.



[Text for above]

Key statistics….
Ystadegau Allweddol – Cyfnod Dau a Chyfnod Tri

If there is evidence of….
Os oes tystiolaeth o anghenion iechyd corfforol neu iechyd meddwl, neu o gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol, gwnaethpwyd cyfeiriad priodol

Action taken where there is…
Camau effeithiol wedi'u cymryd lle mae tystiolaeth o anawsterau addysgol

Action taken for children…
Camau priodol wedi'u cymryd ar gyfer plant yr ystyrir eu bod yn agored i niwed ganddynt eu hunain ac eraill

No evidence o any criminal…
Dim tystiolaeth o unrhyw weithgarwch troseddol yn ystod cyfnod y gorchymyn

Breach/recall action…
Camau torri/adalw wedi'u cymryd, os yn ofynnol, o fewn y raddfa amser safonol genedlaethol

violent offences – troseddau treisgar
vulnerable young people – pobl ifanc agored i niwed
all – pawb

Phase 2 – Cyfnod 2
Phase 3 – Cyfnod 3

Cryfderau

- Ymddengys bod mwy o bwyslais yn cael ei roi gan TTIau ar orfodi a chydymffurfio, gyda'r gyfradd torri ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau treisgar yn cynyddu'n sylweddol.
- Roedd y lefel aildroseddu yn ystod cyfnod goruchwyliaeth gan y TTI wedi aros yn gyson dros y ddau gyfnod, gyda dros ddwy ran o dair o blant a phobl ifanc yn ôl pob golwg heb ymwneud â gweithgarwch troseddol yn ystod cyfnod y gorchymyn.

Maes i'w wella

- Er bod mwy o sylw wedi'i roi i fynd i'r afael ag anghenion iechyd ac addysg plant a phobl ifanc, nid oedd pryderon ynghylch diogelu i weld yn cael yr un flaenoriaeth.

CASGLIAD

Roedd cymharu'r canfyddiadau dros ddau gyfnod yr arolygiad yn awgrymu bod mwy o sylw'n cael ei roi i gydymffurfio a rheoli risg niwed i eraill. Yn ddigon tebyg, roedd pryderon ynghylch iechyd ac addysg plant a phobl ifanc i weld yn fwy tebygol o gael sylw nawr. Tra'n croesawu'r ymagwedd fwy blaenweithgar hon ar ran y TTIau, roedd ansawdd gwael parhaus y rheiny'n cwblhau Asset mewn cyfran sylweddol o achosion yn destun pryder, ac yn codi cwestiynau ynghylch a oedd anghenion y plant a'r bobl ifanc penodol hyn yn cael eu nodi. Yn destun llawn gymaint o bryder oedd y gostyngiad ymddangosiadol yn y flaenoriaeth yn cael ei rhoi i faterion diogelu. Roedd y ffactorau hyn, o'u hystyried ochr yn ochr â'r dystiolaeth o gynlluniau ac adolygiadau goruchwylio annigonol, ac absenoldeb arfer gwahaniaethol rhwng grwpiau o blant a phobl ifanc agored i niwed, yn atgyfnerthu'r gred nad oedd TTIau eto wedi mabwysiadu ymagwedd gymesur â risg at eu gwaith.

Mae angen i TTIau roi sylw i'r materion hyn os ydynt i fod yn effeithiol o ran atal troseddu ac aildroseddu gan blant a phobl ifanc, tra'n eu diogelu ar yr un pryd ac yn hyrwyddo'u lles.

GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N DESTUN GORCHMYNION CADW A HYFFORDDI (GCH)

Roedd nifer yr achosion GCH a welwyd ym mhob un o'r TTIau a arolygwyd yn ystod 2005/2006 yn amrywio cryn dipyn, ac yn adlewyrchu'r cyfraddau cadw gwahanol ar draws Cymru a Lloegr. Hefyd, roedd yn rhaid i'r arolygiad ystyried lleoliad y Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (STIau) a sefydliadau diogel mewn perthynas â'r TTIau, gyda rhai cryn bellter i ffwrdd. Roedd y materion hyn, er nad oeddent yn anorchfygol, yn anochel yn cael effaith ar ansawdd y cysylltiad rhwng TTIau a staff cadw, ac o ganlyniad, ar gyflwyno gwasanaethau.

Canfyddiadau o gyfnod tri o arolygiadau

	Pob achos		**Plant a Phobl Ifanc Agored i Niwed**		**Troseddau Treisgar**	
	Canran	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**
Os ystyrir bod y person ifanc yn agored i niwed ganddo'i hun neu gan eraill, mae camau wedi'u cymryd	82%	65	82%	65	87%	33
Roedd y camau a gymerwyd ar gyfer plant a phobl ifanc yr ystyrir eu bod yn agored i niwed yn briodol i anghenion yr achos	91%	59	91%	59	85%	28
Tra bod y person ifanc yn y ddalfa, cynhaliwyd ymweliadau'n unol â safonau cenedlaethol	83%	130	87%	67	79%	54
Asesiad cychwynnol wedi'i gwblhau yn unol â safonau cenedlaethol o ansawdd digonol	83%	134	84%	65	81%	58
Anfonwyd Asset ar unwaith ac anfonwyd pob gwybodaeth arall ac asesiadau perthnasol at y sefydliad cyn pen 24 awr	91%	85	91%	41	93%	37
Asesiad risg o niwed llawn wedi'i gwblhau mewn achosion perthnasol	75%	93	82%	56	86%	50
Tystiolaeth yn y ffeil achos o ddiofalwch rheoli mewn achosion risg o niwed	56%	40	63%	30	61%	23
Y goruchwyliwr achos yn ymwneud yn weithredol â chynllunio dedfrydau ac adolygiadau	93%	150	95%	74	87%	63
Amlder yr apwyntiadau a drefnwyd yn cydymffurfio'n fras â safonau cenedlaethol, â gofynion y drwydded, ac ystyriaethau risg o niwed	86%	107	88%	53	87%	66

Barnau ynghylch derbynioldeb/ annerbynioldeb absenoldebau yn briodol	86%	84	94%	44	85%	35
Camau torri/adalw wedi'u cymryd, os yn ofynnol, o fewn y raddfa amser safonol genedlaethol	79%	36	83%	19	77%	16
Y person ifanc wedi cydymffurfio hyd yma gydag amodau'r drwydded, gan gynnwys unrhyw ofynion ychwanegol	64%	74	59%	33	69%	35

Er bod y canfyddiadau'n awgrymu lefel uchel o gyswllt cyn-rhyddhau, a bod rheolwyr achos yn ymwneud yn weithredol â chynllunio dedfrydau ac adolygiadau, nid ymwelwyd ag un o bob pum person ifanc yn treulio dedfryd yn y carchar am drosedd dreisgar yn unol â'r safon genedlaethol.

Er bod gwybodaeth Asset a gwybodaeth arall, yn amlygu ffactorau risg penodol, wedi'i hanfon at y sefydliad yn rhan fwyaf yr achosion, ond nid ym mhob un o'r achosion, ni chymerwyd unrhyw gamau mewn cyfran sylweddol o blant a phobl ifanc yr ystyriwyd eu bod yn agored i hunan-niweidio. Yn ddigon tebyg, ni chafodd asesiad risg o niwed llawn ei gwblhau mewn nifer o achosion. Fel gydag achosion cymunedol, nid oedd rheolwyr yn gwneud cofnod yn y ffeiliau achos fel mater o drefn arferol i gofnodi eu bod wedi goruchwylio'r gwaith a wnaed.

Ystyriom hefyd sut yr oedd gwaith a wnaethpwyd gyda'r plentyn neu berson ifanc tra'u bod yn y ddalfa yn cael ei barhau ar ôl eu rhyddhau, ac, yn benodol, a oeddent yn cael cymorth gan y TTI i gael mynediad i wasanaethau prif ffrwd. Canfuom fod rhyw ddwy ran o dair o blant a phobl ifanc yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded, a bod y lefel orfodi, ar ôl rhyddhau, yn uwch yn gyffredinol na hynny a ganfuwyd mewn achosion cymunedol. Yn siomedig, fodd bynnag, nid oedd gwaith a gychwynnwyd yn y ddalfa yn cael ei barhau ar ôl rhyddhau mewn cyfran sylweddol o achosion.



Cryfderau

- Roedd llawer o TTIau wedi sefydlu perthnasoedd gweithio da gyda'i Sefydliad Troseddwyr Ifanc lleol neu sefydliadau diogel, ac roedd rheolwyr achos TTI yn cyfathrebu'n dda gyda staff y ddalfa ynghylch achosion unigol.
- Roedd rhai TTI wedi sefydlu gweithwyr pwrpasol i oruchwylio plant a phobl ifanc yn treulio dedfrydau yn y ddalfa.
- Roedd y prosiectau Ailsefydlu a Darpariaeth Ôl-ofal yn cyflwyno gwasanaeth da i blant a phobl ifanc a chanddynt broblemau camddefnyddio sylweddau wrth iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa.
- Roedd y drefn rhannu gwybodaeth rhwng yr ystâd ddiogel a'r TTI ynghylch anghenion Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth plant a phobl ifanc, cyn eu rhyddhau o'r ddalfa, yn gwella. Roedd staff addysg arbenigol a Chynghorwyr Personol Connexions yn dod yn fwy cysylltiedig â'r cyfarfodydd cynllunio ac adolygu GCH.

Meysydd i'w gwella

- Mewn lleiafrif o achosion, roedd trefn wael o drosglwyddo gwybodaeth o'r TTI lleol i'r sefydliad diogel, ac fel arall; roedd cysylltiad parhaus rhwng y ddwy asiantaeth yn amrywiol, ac nid oedd anghenion a oedd yn cael eu nodi gan y TTI yn cael eu hystyried yn ddigonol yn ystod y cyfnod yn y ddalfa.
- Roedd y trefniadau amrywiol ar gyfer cadeirio cyfarfodydd adolygu dedfrydau yn y Sefydliadau Troseddwyr Ifanc gwahanol yn creu anawsterau o ran cyflawni cysondeb ymarfer.
- Roedd diffyg llety addas cyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc ddigartref ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa yn rhan fwyaf yr ardaloedd.
- Roedd gwaith dilynol yn ymwneud â chynnydd addysgol gan weithwyr TTI yn ystod dedfryd y plentyn neu berson ifanc yn y

ddalfa, ac wrth iddynt ddychwelyd i'r gymuned, yn anghyson ar draws pob TTI. Daethpwyd ar draws rhai enghreifftiau da, ond roedd gwaith effeithiol yn cael ei danseilio'n aml gan ddiffyg darpariaeth briodol yn y gymuned ar gyfer y grŵp penodol hwn o blant a phobl ifanc.

- Mewn rhai achosion, nid oedd plant a phobl ifanc yn cael asesiadau llythrennedd a rhifedd ar ddiwedd y rhan o'u GCH yn y ddalfa; nid oedd unrhyw waith monitro yn erbyn sgorau Asset cychwynnol yn cael ei wneud gan y sefydliad diogel na chan y TTI cartref, ac nid oedd unrhyw gyflawniadau cychwynnol a gafwyd mewn addysg yn ystod y cyfnod yn y ddalfa yn cael eu parhau ar ôl rhyddhau.
- Roedd mynediad i Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth i blant a phobl ifanc ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa i'r gymuned yn wael at ei gilydd. Nid yw'r sefyllfa ddifrifol hon wedi gwella o 2004/2005.
- Nid oedd llawer o blant a phobl ifanc gyda phroblemau iechyd, a phroblemau camddefnyddio sylweddau ac alcohol, yn defnyddio gwasanaethau prif ffrwd ar ôl eu rhyddhau.
- Yn syndod, roedd gwaith ar ymddygiad troseddol yn cael ei barhau yn y gymuned mewn llai na thri chwarter yr achosion.

CASGLIAD

Er i ni weld llawer o enghreifftiau o arfer da mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc a oedd yn treulio dedfrydau yn y ddalfa, yn rhy aml, nid oedd hwn yn cael ei barhau ar ôl eu rhyddhau. Roedd angen sylw penodol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad i wasanaethau addysgol prif ffrwd wrth iddynt ddychwelyd i'r gymuned. Fodd bynnag, ymddengys bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn y ddarpariaeth gwasanaethau camddefnyddio sylweddol drwy'r adnoddau ychwanegol yn cael eu cynnig gan y Ddarpariaeth Ailsefydlu ac Ôl-ofal.

GWAITH GYDA DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL

Fel ag o'r blaen, mae gwaith gyda dioddefwyr yn aml yn parhau'n gyfrifoldeb grŵp bychan o staff, yn cynnwys swyddog wedi'i secondio o'r heddlu yn aml, sy'n gweithio ar wahân i weddill y tîm TTI. Mae cyswllt yn gyfyngedig yn aml i achosion sy'n arwain naill ai at rybuddion terfynol neu orchmynion cyfeirio fel ffordd o flaenoriaethu adnoddau, a'r canlyniad yw bod anghenion dioddefwyr eraill, a all fod wedi bod yn destun troseddau llawn mor ddifrifol neu fwy difrifol, yn cael eu hesgeuluso.

Mae llawer o TTIau yn parhau i gael eu rhwystro o ran eu gallu i gysylltu â dioddefwyr gan absenoldeb gwybodaeth amserol a dibynadwy. Mae cysylltiad y swyddog o'r heddlu ar secondiad yn dileu'r broblem hon i raddau helaeth, cyhyd â bod ganddo fynediad hawdd i Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu.

Er gwaetha'r cafeatau hyn, gwelsom rywfaint o waith rhagorol gyda dioddefwyr, yn enwedig yn y meysydd hynny lle'r oedd staff yn cynnal cynadleddau adferol. Daethom ar draws rhai enghreifftiau da o brosiectau unioni anuniongyrchol hefyd, lle'r oedd gwaith yn cael ei wneud gan blant a phobl ifanc a oedd o fudd cadarnhaol i'r gymuned, ac yn cynnig y cyfle iddynt wneud iawn, mewn rhyw ffordd, am eu hymddygiad.

Arfer da	Roedd prosiect BUSTED, yn cael ei redeg gan TTI Swydd Stafford, yn ymwneud â phlant a phobl ifanc a oedd wedi cyflawni byrgleriaeth, ac yn dylunio posteri yn cynghori trigolion cymunedau lleol am bethau yr oedd byrgleriaid yn chwilio amdanynt wrth benderfynu pa eiddo i'w targedu. Roedd y posteri'n rhoi cyngor ynghylch yr hyn y gellid ei wneud i leihau'r tebygolrwydd y byddai trigolion lleol yn cael eu bwrglera. Roedd y posteri hyn yn cael eu harddangos ar fysiau lleol ac yn cael eu hamlygu ar lefel uchel i aelodau'r gymuned leol.



Cryfder

- Roedd sylw'n cael ei roi i faterion amrywiaeth ac anghenion penodol plant a phobl ifanc a dioddefwyr ym mwyafrif yr achosion.

Maes i'w wella

- Cafodd lai nag hanner yr holl ddioddefwyr eu gwahodd i gyfranogi mewn, neu i fynegi barn ynghylch, ymyriadau adferol gyda'r plentyn neu'r person ifanc. Mae'r gyfran hon wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth ers cychwyn y rhaglen arolygu.

CASGLIAD

Siom oedd canfod nid yn unig bod y lefel ymyrraeth gyda dioddefwyr wedi aros yn gyson ers cychwyn y rhaglen arolygu, ond bod gwaith i godi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu ynghylch effaith eu trosedd wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth yn ogystal. Er y gall y diffyg twf mewn gwaith gyda dioddefwyr fod yn rhannol yn sgil adnoddau, mae'n anodd deall pam nad oes mwy o sylw wedi'i roi i ddatblygu empathi dioddefwyr ymhlith plant a phobl ifanc sy'n troseddu fel rhan hanfodol o fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol. Mae dealltwriaeth o safbwynt a phrofiad y dioddefwr yn rhan annatod o asesu a rheoli risg.

Er i ni gael ein calonogi gan rai o'r mentrau sydd ar waith, yn enwedig mewn perthynas â dioddefwyr ifanc a chynadledda adferol, roeddwn yn pryderu nad oedd gwaith gyda dioddefwyr wedi'i ddefnyddio mwy i ddylanwadu ar oruchwylio gwaith gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu – drwy hynny'n datblygu dealltwriaeth bellach o safbwynt y dioddefwr ar draws y TTI.

Arfer da	Cafodd mur hyll ar stryd breswyl yn Blackpool ei drawsnewid trwy waith 14 o blant a phobl ifanc ar orchmynion unioni, arlunydd lleol ac aelodau'r TTI.

	Dewiswyd murlun o olygfa cefn gwlad i orchuddio'r mur. Roedd y prosiect yn ganlyniad cysylltiadau TTI â'r gymuned leol, a bu'n rhedeg am bedair wythnos gan ddefnyddio syniadau gan drigolion lleol.

GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YNG NGHYMRU

CYFLWYNIAD

Fel rhan o gyfnodau dau a thri'r rhaglen arolygu, cafodd arolygiadau TTI eu cynnal yng Nghymru yn 2005/2006 yng Nghasnewydd, Caerffili/Blaenau Gwent a Sir y Fflint. Darparodd Estyn gyngor pellach i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant i blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. Cyfarfu'r rheolwr arwain ar gyfer arolygiadau TTI yng Nghymru a Lloegr, ynghyd â rheolwyr arwain o AGCC ac Estyn, â Grŵp y Rheolwyr TTI yng Nghymru i drafod ac adolygu cadernid y broses arolygu TTI a'r cysylltiadau cyffredinol rhwng y TTI ac asiantaethau partner ardal.

CRYNODEB O'R TRI AROLYGIAD TTI YNG NGHYMRU

RHEOLAETH

Roedd cysondeb ar draws pob un o'r tri gwasanaeth o ran bod â staff ymroddedig a oedd yn gyffredinol yn deall eu gorchwylion, eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd rheolwyr yn darparu arweinyddiaeth a chymorth cadarn. Cafodd newidiadau staff a rhywfaint o ansicrwydd mewn swyddi rheolwyr effaith ansefydlogi ar staff TTI, ac mewn rhai achosion roedd yn gwrthdynnu oddi wrth gyflwyno gwasanaeth dros ystod o ddyletswyddau statudol. Y prif faes i'w ddatblygu ar gyfer pob un o'r tri gwasanaeth oedd gwelliant mewn rheolaeth strategol, gydag angen i gryfhau trefniadau partneriaeth rhwng Byrddau Rheoli a'u Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a'u Partneriaeth Pobl Ifanc (PPI) i alluogi cyflwyno a/neu ddatblygu gwasanaethau'n fwy effeithiol. Byddai gwelliant o ran defnyddio gwybodaeth rheoli perfformiad rhwng y Bwrdd Rheoli, y TTI ac asiantaethau partner yn gymorth yn hyn o beth.

GWAITH YN Y LLYSOEDD

Roedd trefniadau gweithio effeithiol ar waith gyda'r llysoedd, a darparai TTIau adroddiadau da iddynt yn gyffredinol. Roedd ansawdd y staff TTI a oedd yn gweithio gyda'r llysoedd o safon uchel, ac roedd nifer o enghreifftiau o arfer da ym mhob un o'r tri TTI o ran darparu cymorth a gwybodaeth i blant a phobl ifanc ac asiantaethau. Roedd materion yn ymwneud â lle yn codi mewn perthynas ag argaeledd llety mechnïaeth priodol, gyda rhai plant a phobl ifanc yn cael eu lleoli'n amhriodol mewn cyfleusterau preswyl gwely a brecwast. I eraill, arweiniodd hyn at fwy o ddefnydd potensial o remand yn y ddalfa.

GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED

Roedd rhai partneriaethau gwasanaeth o ansawdd da ym mhob un o'r tair ardal, ac roedd ystod o wasanaethau statudol a gwirfoddol yn gweithio gyda'r TTIau i ddargyfeirio unigolion i ffwrdd o droseddu tra'n ceisio eu cynnal, eu cefnogi a/neu eu hadsefydlu yn eu cymunedau eu hunain ar yr

un pryd lle'r oedd hynny'n briodol. Roedd gwrando ar farnau a phrofiadau plant a phobl ifanc a defnyddio hyn fel modd i wella gwasanaethau yn anghyson ym mhob un o'r tair ardal. Ar yr un pryd, roedd angen mwy o sylw mewn asesu a rheoli risg o niwed a rheoli a goruchwylio achosion felly. Roedd pryderon amddiffyn plant yn cael eu rheoli'n dda yn gyffredinol gyda gwasanaethau cymdeithasol, er bod angen gwaith pellach gan y TTIau o ran ceisio cael ymateb cyson mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n cael gwasanaeth gan y TTIau fel 'plant mewn angen'. Roedd rhai enghreifftiau o 'arfer da' creadigol o wasanaethau dargyfeirio a chymorth a oedd yn haeddu eu canmol, ac roedd rhai TTIau yn gweithio ar draws ystod o gymunedau trefol, gwledig, ac, mewn rhai achosion, cymunedau ynysig. Mae angen mwy o gysondeb mewn perthynas ag anghenion iechyd corfforol ac iechyd meddwl i blant a phobl ifanc trwy weithio mewn partneriaeth; gallai protocolau mwy ffurfiol ar gyfer gwasanaethau a/neu'r potensial am ddarpariaeth garlam gynorthwyo hyn.

GWAITH GYDA PHLANT A PH0BL IFANC I ROI SYLW I'W HANGHENION ADDYSGOL

Er mis Ebrill 2005, mae Estyn wedi cymryd rhan mewn tri arolygiad TTI yng Nghymru. Mae gan bob un o'r TTIau berthynas weithio dda gyda'u hawdurdodau lleol mewn perthynas ag addysg. Roedd y TTIau yn gwneud defnydd da o'r berthynas hon i gael mynediad i addysg i blant a phobl ifanc lle'r oedd ar gael. Yn gyffredinol, roedd y TTIau hyn yn dda o ran dod o hyd i ffyrdd i helpu plant a phobl ifanc ymgymryd ag ystod amrywiol o weithgareddau i ddatblygu'u medrau byw ac i roi diddordebau newydd iddynt. Roedd gweithgareddau'n cynnwys codi waliau sychion, peintio, gwaith amgylcheddol, gweithio mewn timau, pysgota a dysgu sut i ysgrifennu curriculum vitae. Roedd plant a phobl ifanc ar yr ISSP yn TTI Caerffili/Blaenau Gwent yn cael asesiad cychwynnol llawn am fedrau sylfaenol a medrau allweddol, a gallent ennill achrediad priodol. Ar brydiau, nid oedd Rheolwyr TTI yn gwneud digon o hyd i herio'r stereoteipio rhyw sylfaenol gan y plant a'r bobl ifanc, gweithwyr TTI neu staff prosiect.

Ym mhob un o'r tri arolygiad TTI, er bod cynnydd o ran faint o addysg a hyfforddiant yr oedd plant a phobl ifanc yn ei gael, roedd diffyg cyfleoedd o hyd i'r holl blant a phobl ifanc dan oruchwyliaeth y TTI, i gael eu hawl lawn i addysg a hyfforddiant. Roedd bylchau sylweddol o hyd o ran:

- nifer yr oriau addysg ac ehangder y cwricwlwm i blant a phobl ifanc o oed ysgol statudol
- y diffyg cyfleoedd hyfforddi i bobl ifanc ôl-16
- ansawdd y cyngor a'r arweiniad gyrfa i blant a phobl ifanc.

Yn ychwanegol at y tri arolygiad hwn, arolygwyd PPI Powys gan Estyn, ac roedd hynny'n cynnwys agweddau ar waith y TTI. Hefyd, darparodd Estyn gyngor pellach i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddar ar ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant i blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.

Canfuom fod parodrwydd cynyddol ar ran partneriaid i weithio gyda'i gilydd wedi iddynt ddod yn ymwybodol o anghenion difrifol plant a phobl ifanc sy'n troseddu. Er enghraifft, roedd PPIau yn dechrau cynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. Fodd bynnag, nid oedd digon o gynlluniau cyfiawnder ieuenctid TTI yn dangos sut fyddai'r TTI yn gweithio gyda'r PPI i gynyddu nifer yr oriau addysg a hyfforddiant amser llawn i blant a phobl ifanc, ac i wella ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant hon. Nid oedd y cynlluniau cyfiawnder ieuenctid yn cysylltu amcanion a thargedau TTI â rhai'r PPI.

Roedd llawer o TTIau yn datblygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda Gyrfa Cymru fel bod plant a phobl ifanc yn gallu cael y cyngor yr oedd ei angen arnynt. Fodd bynnag, nid oedd y cytundebau hyn yn dweud bob tro beth fyddai pob partner yn ei wneud, sut fyddai'r camau gweithredu hyn yn cael eu hariannu a sut fyddai'r gwaith hwn mewn partneriaeth yn cael ei werthuso. Roedd llawer o weithwyr addysg TTI yn cofnodi ac yn olrhain cyrhaeddiad a chynnydd plant a phobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth ddefnyddiol hon yn cael ei rhannu gydag asiantaethau eraill neu'r awdurdod lleol o hyd. Golygai hyn nad oedd gweithwyr mewn asiantaethau eraill yn cael digon o wybodaeth o hyd am yr hyn yr oedd y plant a'r bobl ifanc yn gallu'i gyflawni.

Er gwaetha'r gwelliannau diweddar, roedd gormod o blant a phobl ifanc o dan oruchwyliaeth TTIau yng Nghymru nad oeddent yn cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant. Dim ond 63% o'r holl rai hynny o oed ysgol statudol, o dan oruchwyliaeth yn y gymuned gan yr 13 TTI a ymatebodd i arolwg Estyn, a oedd yn cael y 25 awr a argymhellir. Nid oedd 30% o'r holl blant a phobl ifanc dan oruchwyliaeth y TTIau hyn yn cael unrhyw addysg neu hyfforddiant. Roedd ymron i 50% o'r holl ferched ifanc a'r dynion ifanc 16-19 oed heb fod yn cael unrhyw addysg neu hyfforddiant. Nid oedd awdurdodau lleol a TTIau yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth a oedd ganddynt am y rheiny a oedd yn cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol, yn enwedig lle nad oedd plant a phobl ifanc yn manteisio ar y ddarpariaeth yn cael ei chynnig iddynt. Felly, yn rhy aml, roedd cynlluniau cyfyngedig, unigol a manwl o'r modd yr oedd yr holl asiantaethau i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hyn er mwyn iddynt feithrin cysylltiad gwell ag addysg a hyfforddiant.

Nid oedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol yn casglu data am gyrhaeddiad neu gyflawniadau unigolion neu'r grŵp o blant a phobl ifanc yn cael eu goruchwylio gan TTIau. Golygai hyn nad oedd unrhyw fodd o ddangos yr hyn yr oedd y plant a'r bobl ifanc hyn yn ei gael o'r ddarpariaeth a oedd yn cael ei chynnig iddynt, a pha mor dda y maent yn gwneud. Nid oedd digon o ddefnydd yn cael ei wneud gan bartneriaid ychwaith i fesur effaith neu effeithiolrwydd ymyriadau TTI neu awdurdod lleol.

Nid oedd plant a phobl ifanc yn cael digon o fynediad i ystod o gyfleoedd cwricwlwm. Roedd y cyfleoedd hyn yn cynnwys gwaith TGAU, mynediad i'r iaith Gymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig, addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd ac asesiadau a darpariaeth medrau sylfaenol. Nid oeddent yn cael digon o wybodaeth yn yr iaith o'u dewis. Roedd diffyg cynlluniau manwl ar

gyfer plant a phobl ifanc yn y ddalfa i sicrhau eu bod yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt. Er enghraifft, nid oedd cynlluniau ar gyfer y rheiny ar Orchmynion Cadw a Hyfforddi yn ddigon manwl i ddarparu fframwaith strwythuredig ar gyfer monitro cynnydd neu gyrhaeddiad y plentyn neu berson ifanc, ac nid oedd plant a phobl ifanc yn y ddalfa yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt o hyd gan gynghorwyr gyrfa.

GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N DESTUN GORCHMYNION CADW A HYFFORDDI (GCH)

Roedd dau o'r TTIau yn gweithio'n effeithiol gyda phlant a phobl ifanc cyn eu dedfryd, yn ystod eu dedfryd ac wedi hynny. Mae'r TTI arall yn gwneud gwelliannau angenrheidiol yn ei gymorth a'i ymyrraeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u dedfrydu i GCH, er nad oedd y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu i unigolion wrth iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa yn gyson, ac roedd nifer o faterion i roi sylw iddynt mewn perthynas â safonau cenedlaethol. Mae mwy o gysonder yn ymwneud â chyfleoedd addysg a hyfforddiant a chymorth ar ôl rhyddhau yn hanfodol i gynorthwyo lleihau aildroseddu. Roedd rhai enghreifftiau o arfer da ar gyfer plant a phobl ifanc a chanddynt broblem gyffuriau sylweddol, ac roedd gwaith yn cael ei wneud gyda hwy yn ystod eu dedfryd ac wedi hynny.

DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL

Roedd gan bob un o'r tri TTI raglenni sefydledig ar gyfer gwaith dioddefwyr a chyfiawnder adferol, er y barnwyd bod un o'r gwasanaethau'n annigonol ac yn gofyn am gryn welliant mewn perthynas ag ymagwedd strategol a gweithredol tuag at weithio gyda dioddefwyr troseddu. Roedd rhywfaint o waith arloesol gyda dioddefwyr, a chysylltiadau da gyda gwasanaethau cymorth dioddefwyr lleol, ynghyd â gwaith cyfryngu cadarn. Roedd gwaith cyfiawnder adferol yn cynnwys arfer clodwiw wrth weithio gydag un person ifanc yn y ddalfa. Lle'r oedd gwaith gyda dioddefwyr yn gallu cael ei ddatblygu a'i gynnal, roedd adborth ganddynt yn dangos bod y profiad yn ddefnyddiol iawn yn gyffredinol.

AMRYWIAETH

Poblogaethau gwyn yn bennaf, rhyw 99%, oedd gan y pedwar awdurdod lleol yng nghwmpas y tri TTI, ac roedd canran y trigolion Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig neu Ddu neu Ddu Prydeinig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oedd gan yr un o'r Byrddau Rheoli gynrychiolwyr o'r cymunedau hyn. Roedd pob un o'r TTIau yn amrywiol o ran cenedl: roedd gan ddau o'r TTIau staff o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ac roedd angen i un gwasanaeth ddenu mwy o staff a gwirfoddolwyr lleiafrifoedd ethnig. Yn Sir y Fflint, lle gallai 11% o'r boblogaeth naill ai siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg, roedd y Bwrdd Rheoli a'r TTI yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oedd gan y ddau TTI arall unrhyw siaradwyr Cymraeg, ac roeddent yn ystyriol o'r angen i gael cynlluniau i fodloni'r galw. Roedd pob un o'r timau'n flaenweithgar a/neu

yn gwella yn eu prosesau hyfforddi ac asesu mewn amrywiaeth, ac roedd rhai enghreifftiau o arfer cadarn a/neu arfer yn gwella.

Un maes i'w wella i bob un o'r tri TTI oedd arweiniad penodol ar ymyriadau ar gyfer merched/merched ifanc, pobl ifanc anabl a grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys y rheiny sy'n destun GCH, er bod enghreifftiau o rywfaint o waith cadarn a oedd yn adlewyrchu sensitifrwydd at faterion amrywiaeth ar gyfer plant a phobl ifanc unigol.

DATBLYGIADAU TTI AR DRAWS CYMRU GYFAN

Mae gwahaniaethau strwythur clir yn y modd y mae TTIau yng Nghymru a Lloegr yn cysylltu â'r arolygiaeth ehangach a phrosesau gwella, er bod safonau gwasanaeth ac atebolrwydd BCI yn aros yr un fath. Mae angen mwy o waith ymhlith y prif arolygiaethau yng Nghymru i greu mwy o gydlyniad rhwng arolygiadau, canlyniadau ac argymhellion TTI a'r adolygiadau awdurdod ehangach, gan gynnwys adolygiadau ar y cyd, gyda'r cysylltedd yn cael ei adlewyrchu trwy Raglen Cymru ar gyfer Gwella bob blwyddyn. Bydd y flwyddyn sy'n dod yn gweld gwell cydlyniad a chydweithredu rhwng adolygiadau ar y cyd, arolygiadau PPI a TTI ac ymweliadau dilynol a gwerthusiadau. Dylai cysylltiadau gwell gyda'r BCI gynorthwyo ymagwedd gadarn tuag at ymweliadau dilynol arolygiadau TTI.

Dylai hyn, yn ei dro, gynorthwyo o ran chwalu'r hyn y mae llawer o Reolwyr TTI yn ei weld fel realiti seilo gwasanaeth a/neu bartneriaeth, gan mai prin y mae eu gwasanaethau'n cael eu hintegreiddio'n llawn i fusnes craidd asiantaethau partner. Mae'r angen cyffredin i wella ar gyfer y tri TTI a arolygwyd eleni, er mwyn sicrhau rôl strategol fwy i Fyrddau Rheoli, yn un sy'n cael ei weld yn gyffredinol gan Reolwyr TTI fel cam angenrheidiol i sicrhau integreiddio'u gwasanaethau mwy. Un maes i'w ddatblygu o bosibl fyddai protocolau yn ymwneud â meini prawf cymhwyster a mynediad gwasanaeth rhwng TTIau a gwasanaethau plant awdurdod lleol. Hefyd, byddai rheolwyr yn croesawu mwy o eglurder ynghylch y berthynas rhwng eu gwasanaethau a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae rheoli perfformiad a mesurau a thargedau perfformiad cysylltiedig, ynghyd â gwaith ychwanegol, gan gynnwys gwaith gyda dioddefwyr, yn dod â'r hyn y mae Rheolwyr yn ei weld fel pwysau cynyddol heb adnoddau ychwanegol. Ar yr un pryd, mae Rheolwyr yn gweld cymhwysiad y fformiwla cyllido ar gyfer y blynyddoedd i ddod, a'i effaith, fel un a fydd yn creu rhai enillwyr ac, yn bwysicach, rhai colledwyr ar gyfer TTIau yng Nghymru. Fe all hyn gael effaith negyddol anghymesur bosibl i rai awdurdodau sy'n cwmpasu ardaloedd gwledig mawr.

Mae cyfarfod Rheolwyr TTIau Cymru yn cael ei gynnal bob chwarter ac yn fforwm cadarn ar gyfer trafod, adolygu a rhannu arfer da mewn perthynas â rôl TTIau ym maes cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau gofal plant, addysg ac iechyd ehangach. Cafodd y cynnig ar gyfer cysylltiadau gwell rhwng y cyfarfod a CAGC, Estyn ac Arolygiaeth Prawf EM ei groesau gan

bob parti, a dylai ddarparu cyswllt mwy effeithiol rhwng y darparwyr gwasanaeth a'r arolygiaethau, er mwyn cynorthwyo gwelliant eang mewn gwasanaethau. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld rhywfaint o arfer creadigol a chlodwiw, ac adlewyrchir hyn yng ngwaith y tri TTI a gafodd eu harolygu, ac eraill ar hyd a lled Cymru.

AROLYGIADAU THEMATIG

Cymerodd y rhaglen arolygu TTI ran mewn tri adolygiad thematig yn ystod 2005/2006: ar ddiogelu plant, rôl Canolfannau Presenoldeb ac anghenion gofal iechyd plant a phobl ifanc, fel y nodwyd gan arolygiadau blaenorol. Cafodd y canfyddiadau o'r cyntaf o'r adolygiadau hyn, ar ddiogelu, eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2005; nid yw'r ddau arall wedi cyhoeddi eu hadroddiadau eto.

DIOGELU PLANT

Cafodd y gwaith maes ar gyfer yr adolygiad hwn ei wneud yn 2004/2005 fel rhan o ail adroddiad ar y cyd y Prif Arolygwyr ar fesurau diogelu plant. Roedd yn canolbwyntio'n benodol ar waith TTIau yn ystod y cyfnod cyn mynd i'r llys/lleoli, a chyhoeddwyd ei ganfyddiadau mewn adroddiad ar wahân, *From Arrest to Sentence*, ym mis Mehefin 2005 ar yr un pryd â'r prif arolygiad.

Canfuom, yn *From Arrest to Sentence,* bod TTIau yn mwynhau proffil llawer uwch ar y Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant na phan gynhaliwyd yr adolygiad gwreiddiol yn 2002. Roedd y canfyddiad hwn yn arbennig o galonogol, o gofio bod TTIau wedi cael eu disgrifio'n flaenorol fel rhai a oedd wedi'u hynysu o waith prif ffrwd ar ddiogelu plant. Fodd bynnag, er bod gan fwyafrif y TTIau bolisïau a gweithdrefnau a oedd yn sensitif i faterion diogelu, bylchog oedd y gwaith monitro, ac wedi'i gyfyngu'n bennaf i dargedau penodedig. Roeddem yn pryderu hefyd i ganfod bod 10% o staff a gwirfoddolwyr a oedd yn gweithio gyda'r TTIau heb gael archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol eto. Mae canfyddiadau o'r brif raglen arolygu'n awgrymu bod y sefyllfa bryderus hon yn cael ei hunioni erbyn hyn.

Er gwaethaf llawer o enghreifftiau o waith da yn cael ei wneud gan Oedolion Priodol, roeddem yn teimlo y gallai'r TTIau wneud mwy i ddweud wrth blant a phobl ifanc yn nalfa'r heddlu am y system cyfiawnder troseddol a'r gwasanaeth y gallent ei ddisgwyl. Ymddengys bod prinder gwelyau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn brif ffactor mewn cadw plant a phobl ifanc yn y ddalfa dros nos, ac, er mai mater i'r awdurdod lleol oedd yn bennaf, roedd yn fater yr oedd angen i'r TTIau ymgysylltu ag ef yn fwy cadarn.

Er bod y llysoedd o'r farn bod y gwasanaeth gan y TTIau yn un rhagorol, roeddem ni'n teimlo y gallai mwy gael ei wneud i fynd i'r afael â materion diogelu yn ystod y cyfnod mechnïaeth. Cwblhawyd Assets mechnïaeth mewn llai na hanner yr achosion a archwiliwyd, a dim ond chwarter y rhain oedd yn sensitif i ddiogelu. Serch hynny, deliwyd ag unrhyw bryderon mewn modd sensitif yn gyffredinol. Dilynwyd canllawiau mewn perthynas â phlant ar remand mewn llety diogel, ac roedd TTIau'n gweithio'n galed i sicrhau bod staff mewn cyfleusterau diogel yn ymwybodol o unrhyw faterion o natur agored i niwed. Hefyd, canfuom rai achosion o blant a phobl ifanc yn cael eu rhoi ar remand yn y ddalfa heb fawr o gyfraniad gan y TTI.

Y brif neges o'r arolygiad o bell ffordd oedd yr angen am fwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau rhwng yr asiantaethau gwahanol a oedd

yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc cyn eu dedfrydu. Nodom faterion atebolrwydd mewn perthynas â rheoli plant a phobl ifanc yng nghelloedd yr heddlu a oedd yn gofyn am waith gan TTIau a'r heddlu. Roedd llawer o TTIau wedi drysu ac yn pryderu ynghylch pa asiantaeth oedd yn gyfrifol am les plant a phobl ifanc a oedd yn disgwyl hebryngwr ar ôl cael eu rhoi ar remand i'r ddalfa. Yn ddigon tebyg, roedd angen egluro'r trefniadau rhwng TTIau a'u gwasanaethau plant lleol er mwyn hyrwyddo perthynas weithio well rhwng staff llinell flaen.

Roedd yr adroddiad arolygu yn cynnwys nifer o argymhellion i fynd i'r afael â'r materion hyn a materion eraill a nodwyd gan yr adolygiad.

CANOLFANNAU PRESENOLDEB

Cafodd Arolygiaeth Prawf EM ei chomisiynu i gynnal arolygiad thematig o Ganolfannau Presenoldeb gan Uned Cyfiawnder Ieuenctid a Phlant y Swyddfa Gartref. Cafodd grŵp llywio ei sefydlu a diffiniwyd pwrpas datganedig yr arolygiad fel a ganlyn:

> *Archwilio'r graddau y mae Canolfannau Presenoldeb wedi'u hintegreiddio i'r system cyfiawnder ieuenctid ehangach a nodi'r ffactorau sydd wedi helpu neu rwystro'r broses honno.*

Cwblhawyd y gwaith maes yn 2005/2006. Cafodd holiadur ei anfon at bob Swyddog â Gofal canolfannau, a phob Rheolwr TTI, ac o ddadansoddi'r ymatebion hyn, nodwyd deg canolfan ar gyfer ymweliad arolygu, a gwnaed cyswllt hefyd â rhanddeiliaid eraill. Cafodd yr adroddiad ei ddrafftio a chynhyrchwyd cyfres o adroddiadau perfformiad byr hefyd ar bob un o'r canolfannau yr ymwelwyd â hwy.

Roedd y canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod pob un o'r canolfannau yr ymwelwyd â hwy wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran integreiddio i'r system cyfiawnder ieuenctid ehangach yn ystod y blynyddoedd diweddar, wedi datblygu ystod o raglenni perthnasol ac wedi dod i gytundebau gyda TTIau lleol i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc ar fathau eraill o orchmynion. Fodd bynnag, roedd anghysonder mynediad, cynnwys rhaglenni a dull o gyflwyno, meini prawf ar gyfer derbyn mathau eraill o orchmynion, a lefelau ymgysylltiad â TTIau. Er bod mwyafrif y Swyddogion â Gofal a hyfforddwyr yn dangos ymrwymiad mawr i'w gwaith, roedd Rheolwyr TTI yn pryderu ynghylch cymryd cyfrifoldeb am y canolfannau a'u staff pan nad oedd statws cyflogaeth hyfforddwyr a manylion cyllido wedi'u hegluro.

Mae'r Uned Cyfiawnder Ieuenctid a Phlant bellach wedi sefydlu gweithgor i ystyried canfyddiadau'r arolwg a gweithredu'r argymhellion. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn symud Canolfannau Presenoldeb tuag at gysylltiadau gweithio agosach gyda system cyfiawnder ieuenctid y brif ffrwd.

MATERION GOFAL IECHYD PLANT A PHOBL IFANC

Cynhaliodd y Comisiwn Gofal Iechyd ac Arolygiaeth Prawf EM adolygiad ar y cyd o'r canfyddiadau gofal iechyd mewn 50 o'r adroddiadau arolygu a gyhoeddwyd rhwng mis Medi 2004 a mis Ebrill 2006. Diben yr adolygiad oedd amlygu themâu cyffredin o'r adroddiadau hynny er mwyn gwella'r

ddarpariaeth gwasanaethau gofal iechyd i blant a phobl ifanc sy'n troseddu.

Nodwyd cynrychiolaeth wael ar Fyrddau Rheoli TTI gan gynrychiolwyr gofal iechyd fel mater arbennig o bwysig yn yr adolygiad. Nid oedd gan un o bob chwech TTI gynrychiolaeth felly, a hyd yn oed lle'r oedd y GIG lleol wedi dynodi unigolyn i eistedd ar Fwrdd Rheoli'r TTI, nid oedd gan y person hwnnw gysylltiad digonol â gwaith y TTI yn aml i gyfrannu'n effeithiol at drafodaethau ynghylch y ddarpariaeth gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Prin yr oedd canlyniadau iechyd yn cael eu monitro, ac ychydig o arweiniad yr oedd gweithwyr gofal iechyd yn ei gael yn aml ar yr hyn y dylai eu rôl fod.

O ganlyniad, roedd y ddarpariaeth gofal iechyd mewn TTIau yn amrywio cryn dipyn ac yn aml yn adlewyrchu arbenigedd y gweithiwr gofal iechyd penodol yn hytrach nag anghenion y plentyn neu'r person ifanc, ac roedd angen gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch i'r grŵp oed 16 ac 17. Roedd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn well yn gyffredinol, gyda 90% o TTIau â mynediad at weithiwr, a oedd â syniad clir o'r gwaith yr oeddent i fod i'w wneud.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad y byddai mwy o gysylltiad gan gynrychiolwyr gofal iechyd â Byrddau Rheoli TTI yn mynd yn bell i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n troseddu, yn ogystal â helpu i gyfrannu at greu cymdeithas fwy diogel. Roedd angen i Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol, yn gyffredinol, a chynrychiolwyr gofal iechyd ar Fyrddau Rheoli TTI yn benodol, i gymryd mwy o ddiddordeb mewn grŵp cleientiaid yr oedd eu hafiechydon a'u cyflyrau'n effeithio ar bobl eraill yn ogystal â nhw eu hunain.

CASGLIAD

Mae'r adroddiadau thematig yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar waith y TTIau. Eu bwriad, drwy amlygu arfer da a nodi meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach, yw gwella cyflwyniad gwasanaethau ac, felly, gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Byddant yn cael eu defnyddio hefyd, i'r diben hwn, i gyfrannu at arolygiadau dilynol.

DADANSODDIAD AMRYWIAETH AROLYGIAETH PRAWF EM

Yn unol â Datganiad o Ddiben Arolygiaeth Prawf EM i hyrwyddo cydraddoldeb, rydym wedi talu sylw cyson i faterion amrywiaeth ers cychwyn y rhaglen arolygu ym mis Medi 2003. Er bod nifer y merched a menywod ifanc, a phlant a phobl ifanc o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a gynhwyswyd yn y sampl darllen ffeiliau, yn anochel yn rhy fach mae rhai o'r TTIau a arolygwyd i ddod i unrhyw gasgliadau cadarn, trwy gyfuno'r data a gasglwyd, roeddem yn gallu datblygu canfyddiadau a roddodd fewnwelediad i brofiadau grwpiau lleiafrifoedd.

Erbyn i gyfnod tri'r arolygiad gychwyn, pennodd y BCI ofyniad ar yr holl TTIau yng Nghymru a Lloegr i gwblhau archwiliad hil, a datblygu a rhoi ar waith gynllun gweithredu i fynd i'r afael â phryderon a nodwyd. Roedd llawer o'r TTIau yr ymwelwyd â hwy wedyn fel rhan o'r arolygiad wrthi'n ehangu eu hymateb i gynnwys agweddau eraill ar amrywiaeth.

CANFYDDIADAU YN ÔL NODWEDDION AMRYWIAETH: RHYW

Nododd Ystadegau Blynyddol y BCI 2004/2005 bod 79% o faich achosion TTI yn wryw, ac yn adlewyrchu'r boblogaeth droseddu, roedd mwyafrif helaeth yr achosion a arolygwyd (77%) yn fechgyn a llanciau ifanc.

Er i ni ganfod nifer gymharol fach o amrywiadau yn ansawdd yr oruchwyliaeth rhwng llanciau ifanc a merched a menywod ifanc yn ystod ail gyfnod y rhaglen arolygu, datgelodd archwiliad o'r data a gasglwyd yn ystod cyfnod tri rai gwahaniaethau diddorol ym mhroffiliau'r ddau grŵp. Roedd merched a menywod ifanc a oedd yn destun gorchmynion cymunedol gryn dipyn yn fwy tebygol o gael eu hystyried mewn risg o hunan-niweidio na bechgyn a llanciau ifanc, ac roedd ganddynt fwy o anghenion iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Roeddent yn tueddu bod yn llai cysylltiedig â chymryd cyffuriau, ond yn fwy tebygol o gamddefnyddio alcohol na'u cymheiriaid gwryw. Hefyd, roeddent yn llai tueddol o aildroseddu yn ystod eu cyfnod cyswllt â'r TTI.

Er bod angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r ffigurau, a oedd yn isel iawn, hyd yn oed o'u cyfuno, mae darlun ychydig yn wahanol yn dod i'r golwg ar gyfer y merched a'r menywod ifanc hynny sy'n destun GCH. O'r 21 o achosion a archwiliwyd, canfuwyd bod pob un ohonynt ac eithrio un â rhyw ffurf o anghenion iechyd meddwl, tra bod cyfran sylweddol uwch o fechgyn a llanciau ifanc yn y ddalfa yn dangos pryderon iechyd corfforol. Daeth gwahaniaethau i'r amlwg hefyd mewn perthynas ag ansawdd darpariaeth rhwng y ddau grŵp, er i ryw raddau, fe allai'r gwasgariad ehangach o ferched a menywod ifanc ar draws yr ystâd ddiogel, eu hynysu oddi wrth eu teuluoedd, ac anawsterau o ran cynnal cyswllt gan weithwyr TTI gyfrif am hyn.



Wrth ystyried y gwaith a wnaed, nodom y materion canlynol:

Cryfderau

- Cymerwyd camau priodol gyda phob un ac eithrio un o'r 45 o ferched a menywod ifanc yr ystyriwyd eu bod yn agored i niwed ac a oedd yn destun gorchmynion cymunedol.
- Roedd gweithwyr TTI i weld yn gwneud ymdrechion arbennig i ymgysylltu a chymell merched a menywod ifanc, trwy gadw cysylltiad â hwy tra'r oeddent yn ymgymryd ag ymyriadau gwahanol, gan atgyfnerthu gwaith yn cael ei wneud gan rai eraill ac adolygu eu cynllun Asset a goruchwyliaeth yn gyson.
- Er eu bod yn isel eithriadol o ran niferoedd, cynhaliodd rheolwyr arolygiaeth gyson o'r oruchwyliaeth o ferched a menywod ifanc yn treulio cyfnodau dan GCH ac a aseswyd fel rhai a oedd yn risg i'r gymuned ym mwyafrif helaeth yr achosion.

Meysydd i'w gwella

- Roedd merched a menywod ifanc i weld yn cael llai o wasanaeth wrth iddynt fynd drwy broses y llys. Roedd ffurfiau eraill o gymorth a darpariaeth mechnïaeth ar gael mewn dwy ran o dair yn unig o'r achosion a ystyriwyd, o gymharu ag ymron yr holl fechgyn a llanciau ifanc. Gofynnai'r llysoedd am lai o Adroddiadau Cyn-dedfrydu ar gyfer merched a menywod ifanc, ac roedd eu hapwyntiad cyntaf yn digwydd cyn pen diwrnod i'r gwrandawiad llys mewn llai na dwy ran o dair o'r holl achosion.
- Roedd rhybuddion terfynol yn llai tebygol o gael eu cyflwyno o fewn y graddfeydd amser safonol cenedlaethol ar gyfer merched a menywod ifanc na bechgyn a llanciau ifanc, ac nid oedd y dioddefwyr yn cael eu gwahodd mor aml i gymryd rhan yn y broses.

- Ystyriwyd bod maint ac ansawdd y gwaith cyn-rhyddhau gyda merched a menywod ifanc ar GCH yn dderbyniol mewn dwy ran o dair o'r holl achosion yn unig.
- Er mai pum achos yn unig a welsom yn genedlaethol o ferched a menywod ifanc yn treulio dedfrydau yn y carchar a oedd hefyd yn blant sy'n derbyn gofal, cyfrannodd y gweithiwr TTI at yr adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal mewn un achos yn unig. Mewn cymhariaeth, cyfrannodd gweithwyr TTI at yr adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal o fechgyn a llanciau ifanc yn treulio dedfrydau yn y carchar mewn 20 o'r 24 o achosion a archwiliwyd.

CANFYDDIADAU YN ÔL NODWEDDION AMRYWIAETH: TARDDIAD ETHNIG

Eto, gan adlewyrchu'r boblogaeth troseddau ieuenctid, roedd mwyafrif (74%) y plant a'r bobl ifanc yn y sampl darllen achosion o grwpiau ethnig gwyn. Adrodda Ystadegau Blynyddol y BCI 2004/2005 bod 85% o blant a phobl ifanc ar lwythi achosion TTI o grwpiau gwyn. Rydym yn ceisio gor-samplu pobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig er mwyn gallu edrych am unrhyw faterion amrywiaeth mewn goruchwyliaeth.

Cofnodwn darddiad ethnig y plentyn neu berson ifanc yn unol â'r system hunan-ddosbarthu genedlaethol (y system '16 + 1'.) Fodd bynnag, rydym wedi bandio'r grwpiau i grwpiau pobl wyn a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, er mwyn hwyluso dadansoddi ystadegol, gan y byddai'r rhifau sylfaenol fel arall yn rhy fach i'w cymharu'n ystyrlon.

Fel gyda merched a menywod ifanc, a bechgyn a llanciau ifanc, nodom rai gwahaniaethau sylweddol yn y proffiliau rhwng plant a phobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig a'u cymheiriaid gwyn. Er bod plant a phobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o gael eu hystyried mewn risg hunan-niweidio, roedd 15% yn blant sy'n derbyn gofal, o gymharu â 9% o blant a phobl ifanc gwyn. Er y mynegwyd lefelau pryder tebyg am y ddau grŵp ynghylch camddefnyddio cyffuriau, ystyriwyd bod plant a phobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn risg llai o gamddefnyddio alcohol. Hefyd, yn gryn syndod o gofio'r pryderon presennol ynghylch bechgyn Affricanaidd-Caribïaidd mewn addysg, roeddent yn fwy tebygol yn sylweddol o gyfranogi mewn addysg a hyfforddiant pellach os oeddent yn 16 oed neu'n hŷn.

Mae angen dadansoddi ymhellach proffil plant a phobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n destun GCH a ddaeth i'r amlwg o'r sampl darllen ffeiliau. Yn ôl yr ystadegau, aseswyd cryn dipyn yn llai fel rhai mewn risg o niwed naill ai ganddynt eu hunain neu gan eraill. Hefyd, roedd nifer llai ohonynt yn ôl pob golwg a chanddynt anghenion iechyd meddwl, ac roeddent yn llai tebygol o gael eu nodi â phroblemau camddefnyddio cyffuriau neu alcohol. Yr hyn nad yw'n glir o'r ystadegau hyn yw a oeddent, mewn gwirionedd, yn adlewyrchiad gwir o angen, neu o brosesau asesu gwael ar ran y gweithiwr TTI.

Mae'r canfyddiadau o'r arolygiad o'u goruchwyliaeth yn ategu'r pryder hwn ynghylch ansawdd y rhyngweithio rhwng gweithwyr TTI a phlant a phobl ifanc o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.



Cryfderau

- Roedd bron pob un o'r plant a'r bobl ifanc o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig wedi cael adroddiad cyn-dedfrydu wedi'i baratoi ar gyfer eu hymddangosiad yn y llys, ac roedd y gweithiwr TTI wedi cysylltu â'r adran gwasanaethau plant berthnasol ynghylch darpariaeth remand wahanol ym mhob un o'r achosion perthnasol a archwiliwyd.
- Roedd ansawdd yr Asset cychwynnol a baratowyd ar blant a phobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig wedi gwella, gyda 71% yn cael eu hystyried yn dderbyniol, o gymharu â 64% yn ystod cyfnod dau.
- Cafodd asesiad risg o niwed llawn ei baratoi mewn 71% o achosion perthnasol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig, o gymharu â 61% o blant a phobl ifanc gwyn.

Meysydd i'w gwella

- Roedd y cyswllt â rhieni/gofalwyr duon a lleiafrifoedd ethnig ynghylch goruchwyliaeth eu plentyn yn gofyn am sylw pellach. Roeddent yn llai tebygol o gael gwybodaeth gyson am ddatblygiadau yn ystod gorchymyn cymunedol na'u cymheiriaid gwyn, ac nid oeddent yn cael eu cyfweld na'u cynnwys mor aml yn y broses asesu lle'r oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi'i wneud yn destun GCH. Roedd ymweliadau cartref yn cael eu cynnal mewn cyfran sylweddol is o achosion cymunedol a charcharol gyda theuluoedd duon a lleiafrifoedd ethnig na theuluoedd gwyn.
- Er bod plant a phobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod yn destun asesiad risg o niwed llawn, roedd eu hachosion yn llai tebygol o fod yn destun archwiliad gan reolwr na

phlant a phobl ifanc gwyn, os y'u dynodwyd fel *risg ganolig* neu *uchel o niwed.*

- Roedd y broses oruchwyliaeth yn llai cadarn yn gyffredinol gyda phlant a phobl ifanc o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig na grwpiau gwyn, gyda chamau torri'n cael eu cymryd o fewn y raddfa amser safonol genedlaethol mewn nifer sylweddol is o achosion. Ystyriwyd bod llai o ymyriadau'n briodol i'r asesiad risg o niwed a'r tebygolrwydd o aildroseddu, ac nid oedd camau'n cael eu cymryd o hyd i weithredu unrhyw amodau ychwanegol yn y gorchymyn. Yn syndod, roedd goruchwyliaeth a chynlluniau hyfforddi cychwynnol yn cael eu hystyried yn llai tebygol o roi sylw i anghenion unigol mewn perthynas ag amrywiaeth.
- Roedd gwaith gyda dioddefwyr i weld yn fwy prin lle'r oedd y plentyn neu'r person ifanc dan sylw o grŵp pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Roedd cynlluniau goruchwyliaeth yn gwneud cyfeiriad llai aml at gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch safbwynt y dioddefwr neu brosesau adferol. Roedd llai o ddioddefwyr yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd panel cyfeirio neu gyfranogi mewn, neu fynegi barn ynghylch, unrhyw waith cyfiawnder adferol. Roedd gwaith unioni'n llai tebygol o gychwyn cyn pen tri mis i'r ddedfryd.

CANFYDDIADAU YN ÔL NODWEDDION AMRYWIAETH: GRŴP OED

Fel rhan o'n dadansoddiad amrywiaeth, archwiliwyd nifer cynrychiadol o achosion o gyfnod dau'r arolygiad gennym hefyd am wahaniaethau yn ôl oed. Roedd y sampl yn amrywio mewn oed o 10 i 20 mlwydd oed pan gynhaliwyd yr arolygiad o'r TTI. Un ar bymtheg oedd y cyfartaledd oed.

Bandiwyd plant a phobl ifanc i ddau grŵp gennym: 10-14 mlwydd oed a 15-17/18 mlwydd oed. Cynhwysom y rheiny a oedd ychydig yn hŷn pan gynhaliwyd yr arolygiad yn y band hŷn, gan y byddai pob un ohonynt wedi bod rhwng 10 ac 17 mlwydd oed ar gychwyn eu goruchwyliaeth TTI.

Cryfderau

- Ychydig o wahaniaethau oedd yn ansawdd asesu a goruchwylio yn ôl band oed.
- Roeddem yn falch o ganfod tystiolaeth bod 84% o rieni a gofalwyr yn gysylltiedig â'r asesiad cychwynnol o blant 10-14 oed.

Maes i'w wella

- Dim ond mewn 41% o blant 10-14 oed y canfuwyd gwelliant mewn sgorau Asset, o gymharu â 58% o'r rhai hŷn dan oruchwyliaeth.

CASGLIAD

Roedd cyfuno canfyddiadau'r arolygiad yn ôl rhyw ac ethnigrwydd yn datgelu rhai gwahaniaethau diddorol ym mhroffiliau'r grwpiau priodol, ac yn pwysleisio natur gyffredinol agored i niwed merched a menywod ifanc yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid, yn enwedig y rheiny a oedd yn destun GCH. Dangosodd angen cyffredinol hefyd am fwy o ddealltwriaeth o, a chysylltiad â'r glasoed o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig sy'n troseddu.

Er i ni weld llawer o enghreifftiau unigol o arfer da, datgelodd dadansoddiad o ganlyniadau'r ffeiliau a ddarllenwyd yr angen am waith pellach yn y maes hwn, ac yn benodol, hyfforddiant ychwanegol ar gyfer staff.

BARNAU DEFNYDDWYR GWASANAETH

Pwysigrwydd gwrando ar blant a phobl ifanc, a defnyddio'u safbwyntiau wrth gynllunio gwasanaethau, yw un o'r prif egwyddorion yn y *Fframwaith ar gyfer Arolygu Gwasanaethau Plant*, ac mae'n rhan annatod o'r agenda *Mae Pob Plentyn yn Bwysig*. Mae wedi'i ymgorffori i'r Adolygiadau Ardal ar y Cyd drwy ei holiadur *Tellus* ac mae'n rhan o'r Asesiad Perfformiad Blynyddol. Disgwylir i awdurdodau lleol erbyn hyn i ofyn am farnau plant a phobl ifanc am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt, ac i ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir i wella'u cyflwyniad.

Mae llawer o awdurdodau wrthi erbyn hyn yn gweithredu eu strategaeth ymgynghori gymunedol, ac, fel y canfuom yn ystod cyfnod yr arolygiad, mae rhai TTIau yn cyfrannu'n flaenweithgar at y gwaith hwn drwy ganolbwyntio ar anghenion penodol a barnau plant a phobl ifanc sy'n troseddu. Roeddem yn siomedig, fodd bynnag, na wnaeth mwy ymgysylltu â'r broses hon. Gellid gwneud mwy o ddefnydd hefyd, yn ein barn ni, o'r holiadur a ddefnyddir gan TTIau, W*hat Do You Think,* i asesu anghenion ac fel modd o werthuso effeithiolrwydd ymyriadau trwy roi adborth ar ei effaith.

Arfer da

Sut caiff llais a dylanwad yn TTI Doncaster eu mynegi?

Ar sail gwbl wirfoddol, rhoddwyd cyfleoedd i blant a phobl ifanc ar draws yr ystod gorchmynion llys, a'u hannog, i roi adborth drwy fynegi eu barnau am eu profiadau yn ystod eu cyfnod yng Ngwasanaeth Troseddau Ieuenctid Doncaster. Yr amcan oedd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael llais go iawn mewn dylanwadu ar ddatblygiad y gwasanaeth, gan adolygu datblygiadau a bod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth a wnaethant. Gobeithid datblygu hyn yn waith grŵp sy'n canolbwyntio er mwyn archwilio amrywiaeth o themâu cyfiawnder ieuenctid, i gynnwys nodi mesurau a fyddai wedi eu helpu i gadw allan o helynt.

Casglwyd adborth, ei ddadansoddi a'i gyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaeth. Byddai'r adborth hwn yn cael ei ystyried wedyn a'i integreiddio i ddatblygiadau'r GTS.

Roedd y cydlynydd llais a dylanwad yn sicrhau hefyd bod lleisiau plant a phobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol yn cael eu clywed yn yr agenda datblygu gwasanaethau ehangach plant.

CYSWLLT Â DEFNYDDWYR GWASANAETH YN YSTOD YR AROLYGIAD

Mae ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth yn rhan annatod o'r broses arolygu. Lle bynnag y bo modd, ceisiwn gyfarfod â phlant a phobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr, a lle bo hynny'n briodol, dioddefwyr eu troseddau, er mwyn cael eu barnau am y gwasanaethau a ddarperir iddynt gan y TTI ac

i ofyn ym mha fodd y gellid ei wella. Fel hyn, mae eu hadborth yn cyfrannu at ganfyddiadau cyffredinol pob arolygiad.

Trwy'r TTI y gwneir cysylltiad bob tro. Mae rhan fwyaf y defnyddwyr gwasanaeth yn cael cynnig yr opsiwn o gael cyfweliad wyneb yn wyneb gydag arolygydd, neu lenwi holiadur. Hefyd, byddwn yn siarad gyda dioddefwyr dros y ffôn, neu, mewn rhai amgylchiadau, yn ymweld â hwy yn eu cartref neu trefnwn gyfweliad grŵp mewn lleoliad a gytunir. Ein nod yw bod mor hyblyg â phosibl er mwyn cael ystod eang o farnau am waith cyffredinol y TTI.

Gan yr oeddwn yn ymwybodol bod llawer o blant a phobl ifanc dan oruchwyliaeth y TTI yn amharod i gael eu cyfweld gan arolygydd, neu na fyddai'r medrau llythrennedd sylfaenol ganddynt i lenwi holiadur, comisiynwyd holiadur hunan-gyfweld clywedol rhyngweithio â chymorth cyfrifiadur gennym, y gellid ei osod ar liniadur cyn dechrau'r arolygiad, ac y gallai'r plant a'r bobl ifanc ei lenwi wrth iddynt adrodd i'r TTI. Mae'r holiadur rhyngweithiol yn rhoi sylw i'r un materion â'r fersiwn bapur, fel ansawdd gwasanaeth, effaith y gwaith a wnaed, perthynas â staff a'r math o ymyriadau a gynigiwyd.

Ym mis Chwefror 2006, cynhaliwyd adolygiad o'r ymateb gan y 639 o blant a phobl ifanc a oedd wedi llenwi'r holiadur rhyngweithiol ers cychwyn y broses arolygu ym mis Medi 2003. O'r 639 o unigolion hynny:

- Roedd 51 yn wrywaidd a 117 yn fenywaidd (methodd y gweddill â nodi)
- Roedd 489 yn wyn
- Roedd 52 yn Ddu neu'n Ddu Prydeinig
- Roedd 48 o etifeddiaeth gymysg
- Roedd 23 yn Asiaidd
- Roedd 6 yn Tsieineaidd neu o grŵp ethnig arall.

A siarad yn gyffredinol, roedd rhan fwyaf y plant a'r bobl ifanc hyn yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y TTI. Rhoddodd ymron i hanner raddiad cadarnhaol o 8-10 ar gyfer y pethau a wnaethant gyda'r TTI. Er bod y canlyniadau wedi'u lledaenu'n weddol gyfartal ar draws y grwpiau ethnig, roedd merched a menywod ifanc yn tueddu adrodd am lefel bodlonrwydd uwch na bechgyn a llanciau ifanc.

O archwilio'u hymatebion ymhellach, datgelwyd y canlynol:

- dywedodd ychydig dan hanner bod dod i'r TTI wedi newid eu bywyd er gwell 'ychydig', a dywedodd dros chwarter ei fod wedi newid eu bywyd 'llawer'
- honnodd dros hanner eu bod yn bendant wedi rhoi'r gorau i droseddu ers bod dan oruchwyliaeth y TTI, a dywedodd traean arall eu bod wedi rhoi'r gorau i droseddu 'y rhan fwyaf o'r amser'
- disgrifiodd ymron i ddwy ran o dair o blant a phobl ifanc bod y TTI wedi bod yn gymorth iddynt drwy'r adeg. Er bod dros dri chwarter wedi dweud bod eu gweithiwr TTI yn gwrando arnynt, roedd llai o'r farn y siaradwyd â hwy mewn modd y gallent ei ddeall, a theimlai ychydig dros hanner bod eu gweithiwr yn eu deall o hyd
- dim ond dwy ran o dair o blant a phobl ifanc a ddywedodd bod eu gweithiwr TTI bob amser yn gwneud yr hyn yr oeddent yn dweud y

byddent yn ei wneud, a'u bod yn troi i fyny ar amser o hyd. Er hyn, teimlai dros dri chwarter bod eu gweithiwr yn eu trin â pharch bob amser

- dywedodd ymron i ddwy ran o dair o blant a phobl ifanc eu bod yn bendant yn gwybod beth oedd rhaid iddynt wneud yn wahanol, a gwyddai'r mwyafrif beth fyddai'n digwydd pe na fyddent yn cadw apwyntiadau.

Fe wnaeth sylwadau a wnaed gan blant a phobl ifanc a gafodd eu cyfweld yn ystod cyfnod yr arolygiadau roi mewnwelediad pellach i'w bywydau a'u barn am eu cyswllt â'r TTI:

- *Rwy'n sylweddoli nawr faint yr effeithir ar ddioddefwyr.*
- *Nid yw'r carchar yn gwneud dim ond gwneud i chi droseddu mwy. Helpodd y TTI i mi fynd ar y llwybr cul.*
- *Yn sgil y gwaith a wneuthum gyda nhw, newidiais y bobl yr wyf yn cadw cwmni â nhw. Rwy'n meddwl mod i'n gallu barnu cymeriad yn well nawr.*
- *Gweithiodd y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r TTI gyda'i gilydd ac maent wedi newid fy mywyd er gwell.*
- *Maent yn gymorth mawr ac yn siarad â chi fel rhywun cyfartal ac nid fel plentyn.*
- *Mae'r awyrgylch yn anesmwyth pan gerddwch i mewn y tro cyntaf, mae'n rhy ddigalon.*
- *Dydw i ddim yn hoffi gorfod dod yma ac rwy'n siwr na fyddaf yn mynd i helynt eto.*
- *Rhoddodd y TTI help i mi yn y llys; help gyda fy nheulu; a threfnodd apwyntiadau pan na fyddaf yn yr ysgol.*

Cymharol ychydig o rieni/gofalwyr a welsom yn ystod yr arolygiadau TTI. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r rheiny a gyfwelwyd wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol ynghylch gwaith y TTIau:

- *Maent wedi bod yn ffantastig gyda fi a'r plant. Maent yn poeni'n wirioneddol. Nid swydd yn unig ydyw, ac nid ystadegyn yn unig oeddwn i.*
- *Hoffwn sôn am y gwelliant y mae fy mab wedi'i wneud dros y misoedd diwethaf. Mae wedi cadw'n glir o helynt.*
- *Maent wedi rhoi llawer o help i mi, dydw i ddim yn gwybod sut fyddwn i wedi ymdopi hebddynt.*

Er mai nifer fach o ddioddefwyr a welsom hefyd, mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi bod yn gadarnhaol iawn eto ynghylch gwaith y TTI:

- *Roedd yn brofiad defnyddiol ac adferol, lleddfodd fy mhryder, a'm galluogi i deimlo'n rhan o'r broses adfer.*
- *Cefais ystod o opsiynau, felly roeddwn yn gallu dewis yr hyn yr oeddwn i'n gyfforddus ag ef.*

- *Yn gyffredinol, yn dda iawn drwodd at gyfarfod y panel, ac yn ystod y cyfarfod, ond hoffwn fod wedi cael mwy o wybodaeth ddilynol am y canlyniad i'r troseddwr.*
- *Roedd y cyngor a gefais wedi fy helpu i deimlo'n ddiogel.*
- *Yn falch iawn gyda'r broses adferol, ac nid wyf wedi cael ffenestr wedi'i thorri yn yr ysgol am bum wythnos o leiaf, rhywbeth anghyffredin iawn o'r blaen!*

Yn ddigon tebyg, mae buddiolwyr gwaith unioni anuniongyrchol wedi canmol y cyfraniad sy'n cael ei wneud gan blant a phobl ifanc at y gwasanaethau a ddarparant i'r gymuned.

CASGLIAD

Gobeithiwn y bydd safbwynt plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sydd mewn risg o droseddu, fel *grŵp anodd ei gyrraedd*, a'u rhieni/gofalwyr a dioddefwyr, yn cael mwy o amlygrwydd gan TTIau yn y dyfodol, gan ein bod yn gweld cyfranogiad felly fel modd pwerus o annog cynhwysiad cymdeithasol a hyrwyddo dinasyddiaeth.

Mae cael barnau'r defnyddwyr gwasanaeth hyn yn rhan annatod o'n methodoleg, a chyfranna at ganfyddiadau'r arolygiad. Byddwn felly'n annog TTIau nid yn unig i nodi eu safbwynt, ond i'w defnyddio hefyd i gyfrannu at gyflwyno gwasanaethau iddynt yn y dyfodol.

Cerdd a ysgrifennwyd gan ferch dan oruchwyliaeth TTI Doncaster, a atgynhyrchwyd gyda'i chaniatâd hi:

Drugs is for Mugs
I am down the alley waiting to score
My heads turning looking
for the Doncaster law

I'm holding my tenner in my pocket
so tight
thinking of the heroin then making
me bright

10 minutes in the alley
wait Jesus Christ 30 minutes
Late!

I'm rattling cold but sweating two
If anybody passes they will think
I've got the flue

I'm scoring now so there's 10 pounds for you
then I will find a empty house to
shoot myself through but now I am clean,
no more am I mean
so don't kids turn to drugs don't forget
They're for mugs!

ADBORTH GAN DIMAU TROSEDDAU IEUENCTID

EIN GWEITHDREFN GWYNO A'N COD YMARFER

Mae Cod Ymarfer Arolygiaeth Prawf EM, ynghyd â'n Gweithdrefn Gwyno, sydd ar ein gwefan, yn nodi egwyddorion penodol sy'n dylanwadu ar bob un o'n prosesau arolygu. Mae'r rhain yn rhoi pwyslais ar ein statws fel arolygiaeth annibynnol ac yn amlygu pwysigrwydd ymgynghori, sail dystiolaeth gadarn, hyrwyddo amrywiaeth ac adborth amserol fel elfennau allweddol mewn unrhyw arolygiad.

Rydym wedi ceisio cynnal yr arolygiadau TTI yn unol â'r egwyddorion hyn ac ymddwyn mewn modd proffesiynol, diduedd a chwrtais. Er na chawsom unrhyw gŵynion o dan ein gweithdrefnau yn 2005/2006, cawsom nifer fach o sylwadau am y prosesau. Roedd y sylwadau hyn yn ddieithriad yn rhai adeiladol, ac yn hynny o beth, ceisiom ddysgu oddi wrthynt a'u defnyddio i gyfrannu at ein prosesau.

ADBORTH GAN STAFF TTI A GYFWELWYD YN 2005/2006

Mae'r holl staff TTI sy'n cael eu cyfweld yn ystod pob arolygiad TTI yn cael eu gwahodd i lenwi ffurflen adborth sy'n cael ei hanfon ymlaen, yn y lle cyntaf, yn ddienw, at yr arolygydd arwain i'w hystyried. Hefyd, mae unrhyw sylwadau yn ymwneud ag arolygwyr unigol yn cael eu copïo iddynt hwy a'u rheolwr llinell. Mae'r data o'r ffurflenni'n cael ei gasglu wedyn a'i ystyried gan y tîm arolygu.

Cawsom 234 o ffurflenni wedi'u llenwi o'r 23 o TTIau a arolygwyd yn ystod cyfnod tri yn 2005/2006. Dangosir yr ymatebion cyfunol isod.

	Ie/rhesymol	**Na**
A gawsoch rybudd digonol am yr arolygiad?	100%	0%
A oeddech yn glir ynghylch diben yr arolygiad?	99%	1%
A oeddech o'r farn bod y gofynion a bennwyd arnoch chi eich hun a/neu eich staff yn rhesymol?	95%	5%
A oedd y trafodaethau gyda chi wedi'u cynnal mewn modd proffesiynol, diduedd a chwrtais?	99%	1%
Yn eich barn chi, a wnaeth yr arolygiad dalu sylw digonol i faterion cydraddoldeb hil a materion amrywiaeth ehangach?	94%	6%
Os cawsoch adborth unigol gan staff Arolygiaeth Prawf EM am eich gwaith, a oedd hwn yn ddefnyddiol?	98%	2%

Roedd yr adborth a roddwyd yn dangos gwelliant ym mherfformiad tîm yr arolygiaeth ar y cyd ym mhob maes, ac eithrio cydraddoldeb hil ac amrywiaeth. Er bod y canlyniad hwn yn siomedig, yn ein bod wedi ymdrechu i integreiddio materion amrywiaeth i'r arolygiad TTI ers ei gychwyn yn 2003, rydym wedi nodi'r feirniadaeth hon o ddifrif ac wedi diwygio'r modd y cyflwynwn ein canfyddiadau ar amrywiaeth yn ddiweddar er mwyn rhoi mwy o amlygrwydd iddynt yn yr adroddiad

arolygu. Hefyd, rydym wedi rhoi rhaglen hyfforddi traws-arolygiaeth ar waith i sicrhau ein bod ni, fel arolygwyr, yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o faterion amrywiaeth a'r modd y cânt eu hamlygu yn ymarferol.

Rydym wedi annog nifer o newidiadau eraill, gyda chyfraniad yr adborth a roddwyd gan y TTIau yn y flwyddyn flaenorol. Nawr rydym yn ceisio hysbysu TTIau eu bod yn cael eu cynnwys yn y rhaglen arolygu, ac am ddyddiadau'r gwaith maes cyn gynted ag y cawn gadarnhad pa awdurdodau lleol sydd i fod yn destun Adolygiad Ardal ar y Cyd ac Asesiad Corfforaethol yn y flwyddyn sy'n dod. Mae'r broses yn caniatáu'r cyfnod hysbysu mwyaf posibl i TTIau. Rydym wedi ail-ddrafftio'r briff a roddwyd i staff ar gychwyn y broses arolygu a gweithiwn yn galed i leihau unrhyw aflonyddu ar weithrediad y TTI yn ystod gwaith maes. Hefyd, rydym wedi adolygu'r hunanasesiad a gwblhawyd gan TTIau ar gychwyn yr arolygiad, ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r fformat er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi'r cyfle i TTIau i gyfrannu tystiolaeth at yr arolygiad.

Yn olaf, rydym hefyd wedi diwygio rôl aelod tîm y TTI yn yr arolygiad ac mae bellach yn ymgymryd â briff ehangach, mwy cynrychiadol, yn hytrach na chyfyngu'r cysylltiad i ddarllen ffeiliau. Gwerthfawrogwn yn fawr gyfraniad cynrychiolydd y TTI at yr arolygiad, a theimlwn ei fod yn ychwanegu gwerth at y broses drwy sicrhau bod y TTI yn deall y canfyddiadau ac yn berchen arnynt.

I gloi, hoffwn ddiolch i bawb o'r TTI sydd wedi cymryd rhan yn yr arolygiad eleni, ac sydd wedi cyfrannu, drwy eu sylwadau, at y broses mewn modd mor gadarnhaol.

Y CAMAU NESAF

Mae llawer o'n gwaith yn 2005/2006 wedi ei reoli gan yr angen i gydlynu'r arolygiad TTI â datblygiad a gweithrediad yr Adolygiad Ardal ar y Cyd. Rydym wedi cysylltu'n agos â chydweithwyr mewn arolygiaethau eraill, yn enwedig Ofsted, CAGC a'r Comisiwn Gofal Iechyd, ac rydym wedi bod yn falch o weld cyfeiriad cynyddol at waith y TTI yn adroddiadau'r Adolygiadau Ardal ar y Cyd ar wasanaethau plant yn Lloegr. Mae hyn yn ein barn ni wedi atgyfnerthu pwysigrwydd cynnwys plant a phobl ifanc sy'n troseddu yn yr agenda *Mae Pob Plentyn yn Bwysig*, ac wedi amlygu rôl gwasanaethau prif ffrwd, fel iechyd ac addysg, fel elfennau allweddol rhoi sylw i'w hymddygiad troseddol a'i atal.

Bydd y flwyddyn sy'n dod yn flwyddyn o gydgyfnerthu a datblygu. Mae'r arolygiad wedi profi'n broses gadarn, ac, fel y dangosir gan berfformiad gwell y TTIau hynny sy'n destun arolygiadau dilynol, yn fodd effeithiol o hyrwyddo newid cadarnhaol. Bydd y broses yn cael ei chynnal yn ôl y cynllun, ac yn digwydd o fewn yr un raddfa amser â'r Adolygiad Ardal ar y Cyd a'r Asesiad Corfforaethol.

Ar yr un pryd, byddwn, fel arfer, yn parhau i adolygu ein gweithdrefnau a'n methodoleg i sicrhau bod y broses arolygu'n cael ei gweithredu'n effeithiol. Cydnabyddwn hefyd yr angen i ddod â mwy o gydlyniad i'r arolygiadau TTI yng Nghymru, gan edrych ar fwy o gydlyniad â'r adolygiad ar y cyd ac arolygiadau PPI, ac arolygiadau dilynol a gwerthusiadau cysylltiedig.

Yn ddigon tebyg, gan ragweld cwblhau'r rhaglen arolygu bresennol yn 2008, bydd gwaith yn dechrau i rychwantu a chynllunio ar gyfer ei holynydd. Bydd ein profiad o ddatblygu a rheoli'r broses arolygu bresennol yn dylanwadu ar hyn, ac yn adeiladu ar ei llwyddiant.